

Polisi Cynllunio Cymru

Nodyn Cyngor Technegol 15
Datblygu, llifogydd ac erydu arfordirol

Cynnwys

1. Cyflwyniad
2. Cefndir
3. Ffynonellau Perygl Llifogydd
4. Map Llifogydd Cymru
5. Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd
6. Asesiadau o Ganlyniadau Llifogydd
7. Draenio Cynaliadwy
8. Egwyddorion y Nodyn Cyngor Technegol at Ddibenion Cynlluniau Datblygu a Rheoli Datblygiadau
9. Bregusrwydd i Llifogydd
10. Llifogydd a'r System sy'n Dilyn Cynllun
11. Derbynioldeb Canlyniadau Llifogydd
12. Risgiau Arfordirol
13. Dyluniadau Cydnerth
14. Rolau a Chyfrifoldebau
15. Ystyriaethau Pellach

1. Cyflwyniad

- 1.1 Dylid darllen y Nodyn Cyngor Technegol hwn ar y cyd â Pholisi Cynllunio Cymru (PCC) a Chynllun Morol Cenedlaethol Cymru a dylai awdurdodau cynllunio ei ystyried wrth baratoi Cynlluniau Datblygu. Efallai y bydd hefyd yn berthnasol i benderfyniadau ynghylch ceisiadau cynllunio a bydd Gweinidogion Cymru ac Arolygwyr Cynllunio yn ei ystyried wrth benderfynu ar geisiadau ac apeliadau a gyflwynir iddynt.
- 1.2 Mae'r Nodyn Cyngor Technegol hwn yn rhoi canllawiau technegol sy'n ategu'r polisiau a nodir yn PCC a Cymru'r Dyfodol mewn perthynas â llifogydd ac erydu arfordirol. Mae'n cynnig fframwaith ar gyfer asesu'r perygl llifogydd sy'n deillio o afonydd, y môr a dŵr wyneb, a'r risg o erydu arfordirol. Hefyd, mae'n rhoi cyngor ar ganlyniadau'r risgiau ac ymaddasu i berygl llifogydd a byw gydag ef. Ni fydd yn cael blaenoriaeth dros Nodiadau Cyngor Technegol eraill a dylid ei ystyried ochr yn ochr â pholisiau cynllunio eraill.

Mae'r ddogfen hon yn disodli Nodyn Cyngor Technegol 14, a gyhoeddwyd yn 1998, a Nodyn Cyngor Technegol 15, a gyhoeddwyd yn 2004. Ni ddylai Cynlluniau Datblygu a phenderfyniadau cynllunio gyfeirio at y dogfennau hynny mwyach.

2. Cefndir

- 2.1 Gall canlyniadau llifogydd fod yn ddifrifol iawn. Gallant ddigwydd ar unrhyw adeg o'r flwyddyn, a hynny'n aml heb fawr ddim rhybudd. Mae amlder a difrifoldeb llifogydd ar gynnydd, a disgwylir iddynt gynyddu ymhellach o ganlyniad i newid hinsawdd. Gall llifogydd beryglu bywydau, achosi trawma personol sylweddol, arwain at ddifrod helaeth a drud i eiddo, rhoi pwysau ar wasanaethau brys a tharfu'n ddifrifol ar gyfathrebu, busnes a masnach.
- 2.2 Yn gyffredinol, mae topograffi a hanes diwydiannol Cymru yn golygu bod datblygiadau a seilwaith trafnidiaeth wedi'u lleoli ar lawr y cymoedd, mewn ardaloedd iseldir ac yn yr ymylon arfordirol yn bennaf. Mae cyfran fawr o'r boblogaeth yn byw mewn canolfannau trefol arfordirol, gan gynnwys Caerdydd, Abertawe a Chasnewydd ac yn aneddiadau arfordirol y gogledd. Ledled y wlad, mae tua 162,000 o eiddo'n wynebu tebygolrwydd o 1 mewn 100 neu fwy o lifogydd mewn unrhyw flwyddyn benodol o'r môr, afonydd a dŵr wyneb.¹
- 2.3 Mae ardaloedd arfordirol yn wynebu cyfuniad cymhleth o fygythiadau, gan gynnwys llifogydd, erydu ac ansefydlogrwydd tir. Mae arfordir Cymru, sy'n ymestyn dros 2,700km, yn arbennig o amrywiol, gan gyfuno aneddiadau trefol a phorthladdoedd â thraethau eang a chlogwyni garw. Ceir tua 415km o amddiffynfeydd llifogydd adeiledig arfordirol o amgylch Cymru, ac mae erydu arfordirol yn digwydd ar hyd tua 346km o arfordir y wlad, gan olygu bod dros 400 o gartrefi mewn perygl.²
- 2.4 Bydd y dull a nodir yn y Nodyn Cyngor Technegol hwn yn sicrhau y caiff llifogydd ac erydu arfordirol eu hystyried yn briodol wrth wneud penderfyniadau ynghylch llunio cynlluniau a rheoli datblygiadau.

Newid Hinsawdd

- 2.5 Mae'r Pwyllgor ar Newid Hinsawdd yn rhoi cyngor annibynnol i Lywodraeth Cymru ar bennu a bodloni cyllidebau carbon a pharatoi ar gyfer newid hinsawdd. Mae wedi dweud ei fod yn disgwyl i'r hinsawdd yng Nghymru fynd yn gynhesach ac yn wlypach, gyda chynnydd sylweddol yn lefel y môr o amgylch yr arfordir ac yn amlder a difrifoldeb digwyddiadau storm. Bydd hyn yn cynyddu'r perygl llifogydd ac mae hefyd yn rhesymol disgwyl i amlder a difrifoldeb digwyddiadau llifogydd gynyddu. Mae'r Nodyn Cyngor Technegol hwn yn amlinellu'r ffyrdd y gall y system gynllunio helpu cymunedau a phobl i osgoi effeithiau llifogydd, ac i ddod yn fwy cydnerth pan na ellir eu hosgoi.
- 2.6 Mae cysylltiad annatod rhwng Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a newid hinsawdd. Mae'r Ddeddf hon yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i ddatblygu mewn ffordd gynaliadwy a chyfrannu cymaint â phosibl at gyflawni'r nodau llesiant. Mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus feddwl am effaith hirdymor eu penderfyniadau, gweithio'n well gyda phobl, cymunedau a'i gilydd, a chymryd camau i atal a lliniaru problemau parhaus megis effeithiau newid hinsawdd.

¹ Ffynhonnell: Asesiad Perygl Llifogydd Cymru 2019

² Ffynhonnell: Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru (2020)

Yswiriant

- 2.7 Mae'n debygol y bydd cost yswirio eiddo newydd sydd mewn perygl o lifogydd yn llawer uwch na'r gost ar gyfer eiddo nad ydynt mewn perygl. Gall eiddo a adeiladwyd cyn 2009 gael budd o *Flood: Re*, sef cynllun sy'n rhoi cap ar gost yswirio cartrefi sydd mewn perygl o lifogydd tan 2039. Nid yw'r cynllun ar gael i gartrefi a adeiladwyd ar ôl 2009, ac eithrio anheddau newydd a adeileddir yn lle cartrefi sydd eisoes ar yr un ôl troed. Felly, dylai awdurdodau lleol gydnabod ei bod yn bosibl y bydd cartrefi newydd a adeileddir mewn ardaloedd lle ceir perygl o lifogydd yn destun premiymau yswiriant uwch sy'n adlewyrchu'r perygl sy'n eu hwynebu neu na fydd modd eu hyswirio o gwbl. Os na fydd modd yswirio cartref, bydd hynny'n cael effaith andwyol ar y tebygolrwydd o sicrhau morgais.
- 2.8 Mae fforddiadwyedd yswiriant, a'r costau sy'n gysylltiedig â delio â chanlyniadau llifogydd, yn atgyfnerthu'r egwyddor gyffredinol y dylid osgoi datblygu mewn ardaloedd lle y bydd canlyniadau llifogydd yn annerbyniol. Mae hyn yn arbennig o berthnasol gan y bydd *Flood: Re* yn dod i ben yn 2039.
- 2.9 Cynghorir awdurdodau cynllunio neu ddatblygwyr sy'n ystyried datblygu mewn ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd i geisio barn yswirwyr yn gynnar yn y broses. Efallai y bydd yswirwyr eu hunain am gael eu cynnwys yn y gwaith o baratoi Asesiadau Strategol o Ganlyniadau Llifogydd neu gyflwyno sylwadau ynghylch Cynlluniau Datblygu.
- 2.10 Mewn ardaloedd sydd mewn perygl o erydu arfordirol, mae argaeledd yswiriant cartref sy'n cynnwys y risg o erydu yn gyfyngedig dros ben ac mae'n debygol y bydd hynny'n gwneud y rhan fwyaf o gynlluniau'n annichonadwy.

3. Ffynonellau Perygl Llifogydd

3.1 Yn gyffredinol, y prif fathau o lifogydd yng Nghymru yw llifogydd o afonydd, llifogydd arfordirol, neu lifogydd o ddŵr wyneb a chysiau dŵr bach.

3.2 Mae llifogydd o afonydd yn peri bygythiad sylweddol i lawer o gymunedau yng Nghymru. Mae llawer o enghreifftiau wedi dod i'r amlwg ledled y wlad lle mae afonydd wedi torri eu glannau yn ystod glaw trwm a pharhaus, gan arwain at ddifrod a cholled bersonol sylweddol. Er y gall y ffactorau sy'n achosi digwyddiadau llifogydd unigol adlewyrchu amgylchiadau lleol, bydd effeithiau newid hinsawdd ynghyd â thopograffi yn golygu y bydd y risgiau sy'n gysylltiedig â llifogydd o afonydd yn mynd yn fwy difrifol ac yn digwydd yn amlach. Mae adeiladu amddiffynfeydd rhag llifogydd yn ddrud, ac ni fydd modd amddiffyn pob cymuned yn y dyfodol. Hefyd, hyd yn oed os bydd amddiffynfeydd rhag llifogydd yn eu lle, ni fydd sicrwydd na chânt hwy eu hunain eu torri.

3.3 Mae arfordir helaeth Cymru yn wynebu risgiau sylweddol yn sgil llifogydd arfordirol. Ymhlith y ffactorau allweddol sy'n cyfrannu at berygl llifogydd arfordirol mae:

- Ymchwyddiadau storm: yn ystod stormydd, gall gwyntoedd cryfion a systemau gwasgedd isel beri i lefelau'r môr godi'n syfrdanol, gan arwain at ymchwyddiadau storm sy'n gallu gorlifo i ardaloedd arfordirol. Bydd yr ymchwyddiadau hyn yn arbennig o fygythiol i ranbarthau ar diroedd isel a chymunedau arfordirol
- Cynnydd yn lefel y môr: mae newid hinsawdd yn cyfrannu at gynnydd yn lefel y môr, sy'n gwaethygu'r perygl o lifogydd arfordirol. Mae lefelau môr uwch yn golygu y gall ymchwyddiadau storm a llanw uchel wthio dŵr ymhellach i ganol y tir
- Patrymau llanw: Cymru sy'n wynebu rhai o'r amrediadau llanw uchaf yn y byd, yn enwedig mewn ardaloedd fel Môr Hafren. Gall llanw uchel eithafol gyfuno ag amodau storm i greu senarios llifogydd difrifol.

3.4 Gall glaw trwm ar dir dwrlawn neu arwynebau anhydraidd achosi llifogydd lleol yn unrhyw le, bron. Hefyd, gall glaw trwm olygu y bydd systemau draenio a chysiau dŵr cyffredin,³ megis nentydd a ffosydd draenio, orlifo'n gyflym, gan arwain at lifogydd lleol. Wrth i'r hinsawdd newid, daw'r math hwn o lifogydd yn fwy cyffredin ac yn fwy difrifol.

³ Caiff y term 'cysiau dŵr cyffredin' a'r term 'cysiau dŵr bach' eu defnyddio yn y ddogfen hon, a hynny am resymau penodol. 'Cysiau dŵr cyffredin' yw'r term a ddefnyddir yn y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol ac mae'n cyfeirio at gysiau dŵr sy'n llai na 'phrif afonydd'.

Mae'r term 'cysiau dŵr bach' yn cyfeirio'n benodol at enwau parthau llifogydd yn y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio. Mae'r Map yn gwahaniaethu rhwng afonydd a chysiau dŵr eraill ar sail maint dalgylch (mwy a llai na 3km²), ac nid ar sail statws na diffiniad y cwrs dŵr. Mae'r rhan fwyaf o gysiau dŵr, ond nid pob un ohonynt, yn gysiau dŵr cyffredin hefyd (a'r ffordd arall).

- 3.5 Mae'n bwysig bod y system gynllunio'n ystyried y risgiau sy'n gysylltiedig â llifogydd yn llawn. Dylai'r risgiau hyn gael eu hystyried wrth baratoi Asesiadau Strategol o Ganlyniadau Llifogydd ar gyfer Cynlluniau Datblygu ac wrth gynnal Asesiadau Manwl o Ganlyniadau Llifogydd ar gyfer ceisiadau cynllunio. Dylai awdurdodau cynllunio ystyried, yn seiliedig ar yr Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd, a fydd angen polisiâu cynllunio lleol penodol er mwyn rheoli'r risgiau hyn ar gyfer cymunedau sydd eisoes yn bodoli ac mewn perthynas â datblygiadau newydd. Mae rhagor o fanylion am hyn i'w gweld yn adrannau 5 a 6.
- 3.6 Bydd deall natur y perygl o lifogydd yn ystyriaeth bwysig wrth benderfynu a yw polisi lleol yn briodol. Lle y bydd llifogydd o ddŵr wyneb neu gyrsiau dŵr cyffredin yn digwydd yn gyflym, heb fawr ddim rhybudd neu i ddyfnderoedd sylweddol, byddai'n briodol cyfyngu ar ddatblygiadau newydd. Mewn ardaloedd lle y bydd y perygl yn fwy rhagweladwy a'r llifogydd yn fas, gellir dod i'r casgliad bod modd rheoli'r risgiau mewn ffordd dderbyniol ar gyfer datblygiadau newydd a datblygiadau sydd eisoes yn mynd rhagddynt. Os deuir i'r casgliad bod modd rheoli neu liniaru'r risgiau sy'n gysylltiedig â dŵr wyneb neu gyrsiau dŵr cyffredin, rhaid sicrhau na fydd y mesurau hyn yn cynyddu'r perygl llifogydd mewn mannau eraill.
- 3.7 Ni ddylai camau i reoli a liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â llifogydd o ddŵr wyneb a chyrsiau dŵr cyffredin gynnwys adeiladu dros gyrsiau dŵr cyffredin. Mae gan gyrsiau dŵr cyffredin swyddogaeth bwysig o ran draenio ac maent yn cynnig manteision sylweddol i amwynder a bioamrywiaeth. Mae'n bosibl y bydd adeileddau megis pontydd yn angenrheidiol, ond ni ddylid sianelu cyrsiau dŵr i mewn i gwlfertau o dan gartrefi newydd. Dylid ystyried eu bod yn ased naturiol i safle'r datblygiad a'u cyfuno â nodweddion systemau draenio cynaliadwy (SDCau) o'r dechrau lle bo hynny'n briodol.
- 3.8 Yn ystod digwyddiadau llifogydd, bydd dŵr dros ben yn llifo ar oriwaered yn naturiol a chaiff ei ddargyfeirio gan rwystrau sefydlog megis adeiladau. Yn ystod llifogydd bas, bydd newidiadau bach mewn lefelau arwynebau megis palmentydd yn effeithio ar lif dŵr, ac mae'n gallu cronni mewn pantiau bach yn y dirwedd. Pan gaiff safle i ddatblygu mewn ardaloedd lle ceir perygl, neu'n agos at ardaloedd o'r fath, gallai hynny newid llif disgwyledig dŵr yn ystod llifogydd. Mae'n bwysig bod awdurdodau cynllunio'n cael asesiad clir o'r ffordd y bydd datblygiad yn effeithio ar risgiau sy'n gysylltiedig â llifogydd o ddŵr wyneb a chyrsiau dŵr cyffredin.

4. Map Llifogydd Cymru

Ffigur 1 - Diffiniad o barthau llifogydd Map Llifogydd Cymru

Parth	Llifogydd o afonydd	Llifogydd o'r môr	Llifogydd o ddŵr wyneb a chyrsiau dŵr bach
1	Tebygolrwydd o lai nag 1 mewn 1000 (0.1%) (yn ogystal â newid hinsawdd) o lifogydd mewn blwyddyn benodol		
2	Tebygolrwydd o lai nag 1 mewn 100 (1%) ond mwy nag 1 mewn 1000 (0.1%) o lifogydd mewn blwyddyn benodol, gan gynnwys newid hinsawdd.	Tebygolrwydd o lai nag 1 mewn 200 (0.5%) ond mwy nag 1 mewn 1000 (0.1%) o lifogydd mewn blwyddyn benodol, gan gynnwys newid hinsawdd.	Tebygolrwydd o lai nag 1 mewn 100 (1%) ond mwy nag 1 mewn 1000 (0.1%) o lifogydd mewn blwyddyn benodol, gan gynnwys newid hinsawdd.
3	Tebygolrwydd o fwy nag 1 mewn 100 (1%) o lifogydd mewn blwyddyn benodol, gan gynnwys newid hinsawdd.	Tebygolrwydd o fwy nag 1 mewn 200 (0.5%) o lifogydd mewn blwyddyn benodol, gan gynnwys newid hinsawdd.	Tebygolrwydd o fwy nag 1 mewn 100 (1%) o lifogydd mewn blwyddyn benodol, gan gynnwys newid hinsawdd.
Parthau a Amddiffynnir TAN 15	Ardaloedd lle mae seilwaith rheoli perygl llifogydd yn cynnig safon ofynnol o amddiffyniad rhag llifogydd o afonydd o	Ardaloedd lle mae seilwaith rheoli perygl llifogydd yn cynnig safon ofynnol o amddiffyniad rhag llifogydd o'r môr o	Ddim yn gymwys.

1:100 (yn
ogystal â
newid
hinsawdd a
bwrdd rhydd⁴).

1:200 (yn
ogystal â
newid
hinsawdd a
bwrdd rhydd).

4.1 Y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio ac Asesiad Perygl Llifogydd Cymru gyda'i gilydd sy'n ffurfio Map Llifogydd Cymru.⁵

4.2 Y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio yw'r man cychwyn ar gyfer ystyried perygl llifogydd yn y system gynllunio. Mae'r map yn defnyddio parthau llifogydd er mwyn dangos i ba raddau y mae tir mewn perygl o lifogydd o afonydd, y môr, dŵr wyneb a chysiau dŵr bach. Mae'r Nodyn Cyngor Technegol hwn yn amlinellu'r camau gweithredu y dylid eu cymryd wrth ystyried datblygu yn y gwahanol barthau llifogydd. Mae Ffigur 1 yn nodi'r diffiniad o'r prif barthau. Cyfeirir at Barth 1, a Pharthau 2 a 3 a Pharthau a Amddiffynnir TAN 15 gyda'i gilydd fel 'ardaloedd perygl llifogydd' drwy'r ddogfen hon i gyd.

4.3 Mae'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio yn dangos y perygl llifogydd a ragwelir yn y dyfodol yn unol â'r amcangyfrif newid hinsawdd canolog. Bydd angen Asesiadau Manwl o Ganlyniadau Llifogydd i gyd-fynd â cheisiadau cynllunio er mwyn ystyried amrywiaeth o senarios newid hinsawdd, gan gynnwys amcangyfrifon pen uchaf, gan gyfeirio at ganllawiau Llywodraeth Cymru ar lwfansau newid hinsawdd at ddibenion cynllunio.

4.4 Mae ardaloedd sy'n cael budd o amddiffynfeydd ffurfiol rhag llifogydd a gaiff eu cynnal a'u cadw gan Awdurdodau Rheoli Risg i'w gweld ar y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio fel Parthau a Amddiffynnir TAN 15.

4.5 Nid yw bodolaeth amddiffynfeydd rhag llifogydd yn golygu y dylid caniatáu datblygiad heb roi ystyriaeth bellach i berygl llifogydd. Mae amddiffynfeydd rhag llifogydd yn lleihau'r perygl o lifogydd ond nid ydynt yn ei ddileu. Gall canlyniadau llifogydd fod yn arbennig o ddifrifol os bydd y dŵr yn codi'n uwch na'r amddiffynfeydd neu'n eu torri. Caiff Parthau a Amddiffynnir gan TAN 15 eu gwasanaethu gan amddiffynfeydd sy'n amddiffyn rhag o leiaf un o'r prif ffynonellau llifogydd – y môr neu afon, neu'r ddau mewn rhai achosion. Mae'n bosibl y bydd rhai ardaloedd o fewn Parthau a Amddiffynnir TAN 15 yn

⁴ Mae lwfansau ar gyfer newid hinsawdd a bwrdd rhydd yn ofynnol ar unrhyw gynllun amddiffyn rhag llifogydd a gaiff ei gynllunio a'i adeiladu ers 2016. Mae bwrdd rhydd yn cyfeirio at y lwfans ansicrwydd a ddefnyddir wrth ddylunio cynlluniau rheoli perygl llifogydd, megis muriau llifogydd ac argloddiau pridd, a'u rhoi ar waith.

⁵ Mae Map Llifogydd Cymru, gan gynnwys y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio, i'w weld ar wefan CNC (NRW) [Cyfoeth Naturiol Cymru / Gweld eich risg llifogydd ar fap \(Map Asesu Perygl Llifogydd Cymru\)](#)

agored i ffynonellau eraill o berygl llifogydd, felly bydd yn bwysig asesu pob ffynhonnell risg. Bydd hefyd yn bwysig dangos bod unrhyw ddatblygiad newydd ym Mharthau a Amddiffynnir TAN 15 yn ymgorffori cydnerthedd a mesurau gwrthsefyll er mwyn iddo barhau i fod yn rhydd rhag llifogydd ac yn ddiogel ac ymateb yn briodol i gynnwys yr Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd.

4.6 Nid yw ardaloedd lle mae amddiffynfeydd yn cynnig lefelau o amddiffyniad sy'n is na'r diffiniad a roddir yn Ffigur 1 wedi'u cynnwys ym Mharthau a Amddiffynnir TAN 15. Nid yw'r amddiffyniad a gynigir gan amddiffynfeydd o'r fath o safon ddigonol i gyfiawnhau datblygu pellach yn yr ardaloedd hynny. Os bydd buddsoddi yn yr amddiffynfeydd hyn yn golygu y byddant yn cynnig amddiffyniad o'r safon angenrheidiol, caiff y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio ei ddiweddarau. Pan na chaiff amddiffynfeydd eu rheoli gan Awdurdodau Rheoli Risg, ni fydd digon o sicrwydd y byddant yn cael eu cynnal a'u cadw. Yn yr un modd, ni ellir tybio y bydd nodweddion seilwaith sy'n cynnig rhywfaint o amddiffyniad ond nad ydynt yn amddiffynfeydd ffurfiol rhag llifogydd, megis argloddiau rheilffordd, yn aros yn eu lle. Felly, nid yw'r mathau hyn o amddiffynfeydd yn creu Parthau a Amddiffynnir TAN 15 at ddibenion cynllunio.

4.7 I grynhoi, gan ddefnyddio parthau'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio, mae'r Nodyn Cyngor Technegol yn ceisio sicrhau bod y tebygolrwydd o lifogydd a'r effeithiau y byddent yn eu cael wedi cael eu hystyried yn briodol wrth wneud pob penderfyniad cynllunio perthnasol. Mae angen i awdurdodau cynllunio fod yn ofalus wrth neilltuo safleoedd ar gyfer datblygiadau newydd ac ystyried ceisiadau lle mae'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio'n dangos ardaloedd sydd mewn perygl yn glir. Bydd angen iddynt fod yn fwy gofalus wrth i'r bregusrwydd a thebygolrwydd gynyddu. Fodd bynnag, **egwyddorion sylfaenol y Nodyn Cyngor Technegol yw y dylid cyfyngu ar ddatblygiadau newydd ym Mharth 3 yn amodol ar yr eithriadau cyfyngedig yn adran 10 a sicrhau bod penderfynwyr wedi ystyried materion sy'n ymwneud â pherygl llifogydd ym mhob parth arall.**

Diweddariadau i'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio

4.8 Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) sy'n gyfrifol am reoli a diweddarau'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio. Fel rhan o Fap Llifogydd Cymru, caiff ei ddiweddarau bob chwe mis i adlewyrchu newidiadau a fodelir i'r graddau llifogydd. O ganlyniad i'r diweddariadau hyn, mae'n bosibl y bydd y parthau llifogydd yn ymestyn neu'n cyfangu, ac y caiff rhai ardaloedd eu hailddiffinio.

4.9 Caiff Parthau a Amddiffynnir TAN 15 newydd neu estynedig eu creu os bydd CNC yn fodlon bod amddiffynfeydd cymwys yn cynnig amddiffyniad o safon sy'n bodloni'r diffiniad a roddir yn Ffigur 1 neu'n rhagori arno. Dylai

Awdurdodau Rheoli Risg roi'r wybodaeth hon i CNC gan ddefnyddio'r Gronfa Ddata Asedau Cenedlaethol.⁶

- 4.10 Gall trydydd partïon geisio newid y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio gan ddefnyddio proses herio map llifogydd CNC. Yn dilyn heriau llwyddiannus, caiff y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio ei ddiweddarau cyn gynted â phosibl. Ar ôl i CNC dderbyn her ynghylch y map, daw hyn yn ystyriaeth berthnasol i benderfynwyr o'r dyddiad pan gafodd ei derbyn gan Cyfoeth Naturiol Cymru.
- 4.11 Fel ffordd bellach o gynnal cywirdeb y map, bydd CNC yn adolygu Parthau a Amddiffynnir presennol TAN 15 ar y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio yn achlysurol, bob rhyw 2-3 blynedd. Os penderfynir bod safon yr amddiffyniad a gynigir gan amddiffynfeydd wedi gostwng islaw'r trothwy, bydd angen dileu'r Parth a Amddiffynnir ac ailddosbarthu'r ardaloedd yr effeithir arnynt yn Barthau Llifogydd 2 neu 3.
- 4.12 I gael cyngor a gwybodaeth am y perygl llifogydd presennol i eiddo sydd eisoes yn bodoli, mae map Asesiad Perygl Llifogydd Cymru yn rhoi darlun cynhwysfawr o natur a graddfa risgiau a pheryglon. Yr Asesiad hwn yw elfen allweddol arall Map Llifogydd Cymru.
- 4.13 Caiff cronfeydd dŵr yng Nghymru eu categorio yn seiliedig ar y risg a achosir ganddynt i'r cyhoedd a'r amgylchedd os cânt eu torri, er bod hynny'n annhebygol. Mae faint o ddatblygu a wneir yn y dalgylch gorlifo yn ffactor pwysig wrth benderfynu ar gategori risg cronfa ddŵr.
- 4.14 Gall cynllunio defnydd tir arwain yn anfwriadol at ailddosbarthu risg os caiff datblygiad newydd ei leoli o fewn ardal gorlifo cronfa ddŵr. Bydd hyn yn arwain at oblygiadau ychwanegol o ran cynnal a chadw ac yswiriant i berchnogion a gweithredwr cronfeydd dŵr. Dylid edrych ar y mapiau gorlifo cronfeydd dŵr ar y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio wrth baratoi Cynlluniau Datblygu. Dylai'r awdurdodau cynllunio godi unrhyw oblygiadau posibl i berchnogion a gweithredwyr cronfeydd dŵr, megis neilltuo datblygiadau mewn ardaloedd gorlifo, a hynny mewn modd agored ac adeiladol.

⁶ Mae paragraff 119 o'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru yn cynnwys manylion am y Gronfa Ddata Asedau Cenedlaethol.

5. Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd

- 5.1 Rhaid cynnal Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd er mwyn cyflwyno'r dystiolaeth i ategu polisïau a phrosesau dewis safleoedd ar gyfer pob Cynllun Datblygu Strategol a Lleol. Dylai helpu'r awdurdod(au) cynllunio i ystyried materion yn ymwneud â pherygl llifogydd mewn ffordd sy'n gydnaws â chreu lleoedd. Hefyd, dylai'r Asesiad hwn lywio'r broses o ddatblygu dyheadau a chanfod ffyrdd o leihau perygl llifogydd ar gyfer cymunedau sydd eisoes yn bodoli. Dylai Asesiadau o'r fath ddatblygu drwy gydol y broses o lunio cynllun pan fydd rhagor o wybodaeth ar gael a phan gaiff penderfyniadau ynghylch cynnwys y Cynllun Datblygu eu gwneud.
- 5.2 Nid yw ffynonellau llifogydd a'r ffactorau sy'n eu hachosi wedi'u cyfyngu i ffiniau awdurdodau lleol ac felly bydd Asesiad sy'n cwmpasu ardal dalgylch afon yn fwy effeithiol ac effeithlon. Mae'r dull hwn hefyd yn cynnig mwy o opsiynau a hyblygrwydd ar gyfer ymateb yn briodol ac yn addas i ganfyddiadau'r Asesiad.
- 5.3 Bydd yr Asesiadau hyn yn rhoi gwybodaeth i awdurdodau cynllunio am berygl llifogydd yn y presennol a'r dyfodol, gan ddefnyddio'r wybodaeth orau sydd ar gael am newid hinsawdd a newidiadau rhagamcanol i natur perygl llifogydd. Dylent gynnwys ystyriaeth i'r holl ffynonellau llifogydd, gan gynnwys risgiau sy'n gysylltiedig â llifogydd o afonydd a'r môr, erydu arfordirol, dŵr daear, cyrsiau dŵr cyffredin a dŵr wyneb. Mae'n bwysig bod yr Asesiadau'n cynnwys ac yn ystyried tystiolaeth o amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys mapiau a modelau, Asesiad Perygl Llifogydd Cymru, Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd, Cynlluniau Rheoli Traethlin a Datganiadau Ardal.
- 5.4 Dylai'r Asesiadau dynnu sylw at yr ardaloedd hynny lle y bydd datblygu yn groes i bolisi a chanllawiau cynllunio cenedlaethol, a hynny'n gynnar. Gallant hefyd ddangos angen i gynnwys ffyrdd o weithredu sy'n benodol i'r ardal leol mewn Cynlluniau Datblygu. Efallai y bydd y rhain mewn perthynas â'r wybodaeth am Ddigwyddiadau Llifogydd a Gofnodwyd ar y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio, cofnodion lleol o ddigwyddiadau llifogydd o ddŵr wyneb neu gysiau dŵr cyffredin neu erydu arfordirol, neu ardaloedd lle y disgwylir i risgiau gynyddu yn unol â newid hinsawdd.
- 5.5 Dylai'r Asesiad geisio diogelu tir a buddiannau a all fod yn ofynnol yn y dyfodol er mwyn lleihau perygl llifogydd i gymunedau sydd eisoes yn bodoli. Dylai archwilio pa fesurau addasol y gall fod eu hangen yn y dyfodol i fynd i'r afael â'r heriau sy'n gysylltiedig â newid hinsawdd. Hefyd, dylai polisïau a thystiolaeth Cynlluniau Rheoli Traethlin a Chofrestr Cymunedau mewn Perygl CNC chwarae rhan allweddol yn hyn.
- 5.6 Rhaid i Gynlluniau Datblygu fod yn seiliedig ar ddealltwriaeth gadarn o allu'r gwasanaethau brys i ymateb i lifogydd, ac felly dylid ceisio safbwyntiau

rhanddeiliaid allweddol megis timau Cynllunio at Argyfyngau a'r gwasanaethau brys ar y cam hwn. Os bydd gan gynllunwyr at argyfyngau a gwasanaethau brys safbwyntiau cryf ar wneud trefniadau ffyrdd i mewn ac allan a lleoliad y trefniadau hynny, dylai'r Cynllun Datblygu gyfleu'r gofynion hyn i ddarpar ddatblygwyr. Hefyd, dylai eu cynnwys yn gynnar leihau'r angen i'r gwasanaethau brys wneud sylwadau ar geisiadau cynllunio.

5.7 Dylai'r Asesiadau gynnwys ystyriaeth i gyfleoedd ar gyfer arafu a storio dŵr fel rhan o gynlluniau ar gyfer rheoli llifogydd a dŵr yn naturiol, o ystyried y gall rheoli tir yn briodol helpu i leihau perygl llifogydd. Mae dod o hyd i ardaloedd lle y gellir arafu neu storio dŵr, naill ai'n barhaol neu dros dro yn ystod digwyddiadau glaw trwm, yn arbennig o bwysig yn wyneb risgiau hinsawdd sy'n wynebu Cymru. Gall opsiynau megis adlinio arfordirol a reolir ac adfer gorlifdir gyfrannu at reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, lliniaru perygl llifogydd yn y dyfodol a diogelu a chyfoethogi treftadaeth naturiol. Bydd hyn yn arbennig o berthnasol mewn ardaloedd lle na ellir parhau â datblygiadau sydd eisoes yn mynd rhagddynt yn wyneb y cynnydd mewn perygl llifogydd, neu mewn ardaloedd heb lawer o ddatblygiad os bydd hyn yn cynnig ateb mwy costeffeithiol a chynaliadwy nag adeiladu amddiffynfeydd newydd. Dylai cynigion gael eu hamlinellu'n glir yn y Cynllun Datblygu.

6. Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd.

6.1 Mae Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd yn ofynnol ar gyfer unrhyw gynnig ar gyfer datblygiad sydd wedi'i leoli'n rhannol neu'n gyfan gwbl ym Mharthau Llifogydd 2 a 3 – Dŵr Wyneb a Chyrsiau Dŵr Bach. Gall awdurdodau lleol arfer rhywfaint o ddisgresiwn yn achos ceisiadau gan ddeiliaid tai lle y ceir llai o risg o bosibl oherwydd natur y datblygiad arfaethedig a dylai'r gofynion fod yn gymesur â'r cynnig ar gyfer datblygiad. Dylai asesiad hefyd gael ei gynnal ar gyfer datblygiadau ar safleoedd y tu allan i'r parthau hyn sydd â'r potensial i effeithio ar gwrs dŵr wyneb a/neu ddŵr dros ben o gyrsiau dŵr cyffredin. Gall awdurdodau cynllunio roi cyngor lleol penodol ar y mater hwn mewn Cynlluniau Datblygu. Dylai awdurdodau cynllunio sicrhau bod unrhyw ddatblygiad newydd sy'n agos at Barthau Llifogydd 2 a 3 ar gyfer Dŵr Wyneb a Chyrsiau Dŵr Bach yn ddigon pell yn ôl er mwyn gwneud lwfans ar gyfer digwyddiadau llifogydd eithafol.

6.2 Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol sy'n gyfrifol am reoli'r perygl o lifogydd o ddŵr wyneb a chyrsiau dŵr cyffredin. Mae gan yr Awdurdodau hyn rôl bwysig i'w chyflawni o ran cynghori ar berygl llifogydd o ddŵr wyneb a chyrsiau dŵr cyffredin ar gyfer eu hardaloedd a rhaid i'r awdurdod cynllunio geisio barn yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol ar sut i ymgorffori canfyddiadau ei Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd ynghylch y risgiau hyn ym mholisiau ei Gynllun Datblygu. Dylai hefyd geisio ei farn ar geisiadau cynllunio lle y gallai'r perygl o lifogydd o ddŵr wyneb a chyrsiau dŵr cyffredin fod yn rheswm dros eu gwrthod neu lle y cynigir rheoli neu liniaru'r risg.

6.3 Os bydd yr awdurdod cynllunio'n fodlon bod datblygiad arfaethedig mewn ardal lle ceir perygl o lifogydd yn bodloni gofynion y Nodyn Cyngor Technegol, bydd angen cynnal asesiad llawn o ganlyniadau llifogydd fel rhan o'r cais cynllunio.

6.4 Prif amcan Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd yw meithrin gwerthfawrogiad llawn o'r canlynol:

- Perygl a chanlyniadau llifogydd i'r datblygiad;
- Perygl a chanlyniadau (h.y. effeithiau cyffredinol) y datblygiad i berygl llifogydd mewn lleoedd eraill.

6.5 Rhaid i'r asesiad ystyried amrywiaeth o senarios llifogydd posibl hyd at a chan gynnwys tebygolrwydd o 0.1% o lifogydd mewn unrhyw flwyddyn. Rhaid gwneud lwfans ar gyfer newid hinsawdd yn unol â chanllawiau presennol Llywodraeth Cymru, a gyhoeddir ochr yn ochr â'r Nodyn Cyngor Technegol hwn.

6.6 Mae Ffigur 2 yn nodi'r elfennau a'r data y dylid eu cynnwys mewn Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd.

6.7 Bydd yr asesiad yn helpu'r awdurdod cynllunio i benderfynu a yw'r perygl a chanlyniadau llifogydd yn dderbyniol ac a ellir eu rheoli'n briodol drwy gydol oes datblygiad. Hefyd, gellir defnyddio'r asesiad i benderfynu a ellid ymgorffori mesurau osgoi neu liniaru priodol yn nyluniad y datblygiad er mwyn sicrhau y bydd, drwy gydol ei oes, yn lleihau'r perygl i fywyd, difrod i eiddo a tharfu ar bobl sy'n byw ac yn gweithio ar y safle, ac na fydd yn cynyddu perygl llifogydd yn unman arall.

6.8 Rhaid i awdurdodau cynllunio gydnabod nad yw presenoldeb mesurau amddiffyn yn dileu risg yn gyfan gwbl ac y bydd rhai datblygiadau mewn mwy o berygl nag eraill. Gall tir a amddiffynnir fod yn arbennig o fregus os bydd dŵr yn codi'n uwch na'r amddiffynfeydd neu'n eu torri oherwydd cyflymder llifogydd dan amgylchiadau o'r fath. Hefyd, gall llifddwr gludo cryn dipyn o falurion, a allai achosi rhwystrau wrth adeileddau. Lle y bo'n briodol, dylai'r Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd ddangos, os bydd dŵr yn codi'n uwch nag amddiffynfeydd neu'n eu torri neu os bydd rhwystrau, y gellir rheoli canlyniadau llifogydd i lefel dderbyniol. Bydd angen hyn ar gyfer safleoedd sy'n cael budd o'r math o amddiffynfeydd y gellir eu torri neu eu rhwystro, gan gynnwys argloddiau llifogydd, muriau môr a chwlfertau.

Ffigur 2 – Gofynion technegol Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd

Cynllun lleoliad sy'n dangos yr holl ffynonellau llifogydd posibl, gan gynnwys dŵr yn codi'n uwch na'r amddiffynfeydd presennol a/neu'n eu torri ac unrhyw adeileddau o fewn sianeli a all fod yn dueddol o gael eu rhwystro.	<i>Dylai'r cynllun gael ei gyflwyno ar raddfa briodol a dylai gynnwys nodweddion daearyddol ac enwau strydoedd, a nodi'r holl gyrsiau dŵr neu gyrff dŵr eraill yn y cyffiniau. Dylai hyn gynnwys goferoedd draenio ac, os bydd angen, dylid croesgyfeirio at eu trefniadau gweithredol yng nghorff yr adroddiad.</i>
Cynllun o'r safle sy'n dangos y lefelau presennol ac arfaethedig mewn perthynas â Datwm Ordians.	<i>Mae'n ddigon posibl mai dim ond dangosol fydd y lefelau datblygu ar y cam hwn, ond dylai'r Asesiad ganfod lefelau datblygu er mwyn rheoli perygl a chanlyniadau llifogydd.</i>
Cynllun sy'n dangos unrhyw fesurau lliniaru llifogydd sydd eisoes ar waith.	<i>Os bydd safle datblygiad yn cael budd o fesurau lliniaru llifogydd sydd eisoes ar waith, dylai'r Asesiad asesu effaith a chanlyniadau unrhyw achos lle y bydd dŵr yn codi'n uwch nag amddiffynfeydd a/neu'n eu torri. Dylid hefyd ystyried safon yr amddiffyniad a gynigir gan fesurau o'r fath drwy gydol oes datblygiad.</i>
Asesiad o'r holl ffynonellau llifogydd posibl, gan gynnwys afonydd, y môr, effaith tonnau, dŵr daear, llif wyneb neu unrhyw gyfuniad o'r rhain, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt.	<i>Dylai'r Asesiad gynnwys amcangyfrifon o lifoedd llifogydd eithafol o'r trothwy i'r llifogydd 0.1% (1 mewn 1000 mewn blwyddyn), gan gynnwys lwfans ar gyfer newid hinsawdd.</i>
Trawsluniau cyfredol ac arfaethedig o'r safle sy'n dangos y datblygiad arfaethedig a lefelau safle mewn perthynas â'r ffynhonnell llifogydd, a'r lefelau dŵr a ragwelir a'r tebygolrwydd cysylltiedig.	

Asesiad o ddyfnderoedd a chyflymderau llifogydd brig lle y gallai fod llifogydd mewn rhannau amrywiol o'r safle, hyd tebygol digwyddiadau llifogydd ac effeithiau llifogydd.	<i>Rhaid i'r Asesiad ddangos y gall y datblygiad gyrraedd y trothwyon rhydd rhag llifogydd a nodir yn Ffigur 5 a'r amodau goddefadwy a nodir yn Ffigur 6 (gan gynnwys lwfans ar gyfer newid hinsawdd) fel sy'n ofynnol ar gyfer y math o ddatblygiad.</i>
Gwybodaeth am raddau a dyfnderoedd digwyddiadau llifogydd yn y gorffennol a rhagfynegiadau ar gyfer y dyfodol.	<i>Rhaid i'r Asesiad asesu Digwyddiadau Llifogydd a Gofnodwyd a pherygl llifogydd yn y dyfodol gan ddefnyddio canllawiau presennol Llywodraeth Cymru ar lwfansau newid hinsawdd at ddibenion cynllunio.</i>
Cynllun o'r ardal sy'n dangos llwybrau llif dros y tir a llwybrau mynediad/gadael o safle'r datblygiad arfaethedig sy'n weithredol dan yr holl amodau.	<i>Dylid cynnwys lefelau mewn perthynas â Datwm Ordnans a dyfnderoedd/cyflymderau llifogydd a ragwelir yn y digwyddiad llifogydd 0.1% yn ogystal â newid hinsawdd.</i>
Cynllun a disgrifiad o unrhyw adeileddau a all ddylanwadu ar hydroleg leol, gan gynnwys pontydd, pibellau/dwythellau sy'n croesi'r cwrs dŵr, cwlfertau, sgriniau, argloddiau neu furiau, sianeli sy'n llawn chwyn neu sy'n dymchwel.	<i>Rhaid i hyn gynnwys asesiad o'r tebygolrwydd y caiff adeileddau o'r fath eu rhwystro gan falurion a chanlyniadau llifogydd i'r datblygiad mewn mannau eraill.</i>
Asesiad o oblygiadau unrhyw ddraeniau neu garthffosydd, boed yn rhai sydd eisoes yn bodoli neu'n rhai arfaethedig, i'r safle yn ystod digwyddiadau llifogydd.	<i>Rhaid i'r fethodoleg ar gyfer asesu gael ei nodi'n glir.</i>

Asesiad o'r cyfaint storio llifogydd a fyddai'n cael ei golli a/neu ei ddadleoli o'r safle.	<i>Dylai'r Asesiad asesu amrywiol gyfnodau dychwelyd llifogydd hyd at a chan gynnwys y digwyddiad llifogydd eithafol 0.1% yn ogystal â newid hinsawdd drwy gydol oes datblygiad. Dylid gwneud iawn am unrhyw gyfaint storio llifogydd a gollir ar sail 'tebyg at ei debyg' ac ar sail gyfatebol o ran lefel lle bo hynny'n ddichonadwy. Dylid asesu'r effaith debygol ar unrhyw ddŵr a adleolir mewn mannau eraill hefyd.</i>
Asesiad o'r dŵr ffo y mae'r datblygiad yn debygol o'i achosi.	<i>Dylai'r Asesiad gynnwys manylion am y ffordd y caiff dŵr ffo ei reoli er mwyn sicrhau na fydd perygl llifogydd dŵr ffo i'r datblygiad neu fannau eraill.</i>
Manylion mesurau osgoi, lliniaru a gwrthsefyll llifogydd a gaiff eu rhoi ar waith.	
Manylion i ddangos na fydd y datblygiad yn achosi nac yn gwaethgu natur ac amllder perygl llifogydd mewn mannau eraill.	
Asesiad o'r risgiau ar ôl adeiladu unrhyw fesurau lliniaru angenrheidiol.	<i>Dylid ystyried perfformiad unrhyw fesurau o'r fath mewn digwyddiadau eithafol sy'n fwy na'r rhai y cawsant eu dylunio ar eu cyfer a dylid cynnwys gwybodaeth am yr ystyriaeth a roddir i leihau'r perygl i fywyd, eiddo a threftadaeth naturiol cymaint â phosibl.</i>
Crynodeb clir a chynhwysfawr o'r asesiad sy'n disgrifio'r canlyniadau a'r argymhellion.	

- 6.9 Gall CNC roi cyngor i'r awdurdod cynllunio ar y perygl o lifogydd o afonydd a'r môr i'r datblygiad arfaethedig a mannau eraill yn seiliedig ar y dystiolaeth a gyflwynir yn yr Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd. Dylai'r awdurdod cynllunio hefyd geisio cyngor gan yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol perthnasol ar y perygl o lifogydd dŵr wyneb a ffynonellau llifogydd lleol eraill, gan gynnwys cyrsiau dŵr cyffredin. Dylai hyn alluogi'r awdurdod cynllunio i ffurfio barn ar ba mor dderbyniol yw'r canlyniadau llifogydd. Pan ganiateir datblygiad, rhaid i ddatblygwyr roi cynlluniau neu fesurau ar waith i reoli'r canlyniadau hynny. Rhaid bod modd rhoi mesurau o'r fath ar waith ar y cam priodol fel rhan o'r datblygiad, a rhaid eu cynnal a'u cadw yn y tymor hir lle bo angen.
- 6.10 Gallai effeithiau llifogydd ar seilwaith dŵr neu garthffosiaeth arwain at effeithiau andwyol sylweddol ar iechyd y cyhoedd a'r amgylchedd drwy beri i ddŵr yfed gael ei halogi neu i garthffosiaeth gael ei chymysgu â llifddwr. Gallai dŵr llifogydd fynd i mewn i systemau carthffosiaeth gyhoeddus heb lawer o reolaeth a byddai'r cyfuniad o garthffosiaeth a llifddwr yn effeithio ar eiddo a'r amgylchedd. Dylai'r asesiad canlyniadau ystyried ffyrdd i mewn ac allan, er enghraifft, os na fydd ymgymwrwr statudol yn gallu cael mynediad at ei gyfarpar yn ystod llifogydd, yna bydd hyn yn ymestyn yr amser cyn y gallai gwaith cyweirio gael ei wneud. Mae'n bosibl y bydd angen holi'r ymgymwrwr carthffosiaeth perthnasol am gyngor.
- 6.11 Gall cynigion datblygu ar dir a all gael ei halogi, neu'n agos at dir o'r fath, arwain at oblygiadau o ran ansawdd dŵr yn ystod cyfnodau o lifogydd. Pan fydd llifogydd ar safleoedd o'r fath, bydd perygl perthynol y gall halogyddion penodol symud ac y gallent beri bygythiad i ddyfroedd wyneb neu drwytholchi i mewn i ddyfroedd daear. Hefyd, pan fydd y datblygiad yn cynnwys, er enghraifft, storio/defnyddio olewau, tanwyddau neu gemegion, proses ddiwydiannol neu drin deunyddiau gwastraff, bydd risg i amgylchedd y dŵr os bydd llifogydd ar y safle. Dylai'r ffactorau hyn gael eu hystyried wrth wneud penderfyniad drwy fod yn rhan o'r Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd.

7. Draenio cynaliadwy

- 7.1 Mae datblygiadau adeiledig yn tueddu i gynyddu arwynebedd tir anhydraid, gan leihau trylfiad a chynyddu dŵr ffo cyflym ar yr wyneb. Mae hyn yn lleihau'r amser y mae'n ei gymryd i ddyodiad fynd i mewn i'r cwrs dŵr ac felly'n cynyddu'r arllwysiad brig. Os na chaiff ei reoli'n briodol, gall dŵr ffo o ddatblygiadau arwain at lifogydd mewn lleoliadau eraill a newid amllder a graddau llifogydd yn sylweddol ymhellach i lawr y dalgylch.
- 7.2 Mae SDCau yn cyflawni rôl bwysig o ran rheoli dŵr ffo o safle a rhaid eu rhoi ar waith yn y rhan fwyaf o ddatblygiadau newydd. Gallant arwain at nifer o fanteision o ran creu lleoedd, bioamrywiaeth a datblygu cynaliadwy os cânt eu hystyried a'u hintegreiddio'n gynnar.
- 7.3 Y Corff Cymeradwyo SDCau yw'r corff o fewn yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am sicrhau y caiff SDCau eu hintegreiddio mewn datblygiadau newydd. Mae proses y Corff Cymeradwyo ar gyfer cymeradwyo SDCau ar gyfer datblygiad newydd yn annibynnol ar y broses gynllunio. Bydd angen i ddatblygiadau newydd o fwy nag un annedd neu lle y bydd arwynebedd y gwaith adeiladu yn hafal i 100m² neu'n fwy na hynny gael eu cymeradwyo gan y Corff Cymeradwyo cyn y bydd modd i'r gwaith adeiladu ddechrau. Rhaid i drefniadau mabwysiadu a rheoli, gan gynnwys trefniadau cyllido ar gyfer cynnal a chadw seilwaith SDCau a'r holl elfennau draenio, gael eu cymeradwyo gan y Corff fel rhan o'r broses hon. Bydd hyn yn sicrhau y caiff seilwaith SDCau ei gynnal a'i gadw'n briodol a'i fod yn gweithio'n effeithiol drwy gydol oes ei ddyluniad.
- 7.4 Mae SDCau yn rheoli glawiad mewn ffordd debyg i brosesau naturiol, gan ddefnyddio'r dirwedd a llystyfiant i reoli llif a chyfaint dŵr wyneb. Maent yn cynnig amrywiaeth o atebion peirianeg y gellir eu defnyddio i reoli dŵr ffo wyneb, gan gydnabod bod adeiledd pridd, lefelau trwythiad a chyfraddau ymdreiddio yn amrywio ledled Cymru. Mae'r Safonau Cenedlaethol Statudol ar gyfer SDCau⁷ yn amlinellu amrywiaeth o ddulliau cymeradwyo o reoli dŵr wyneb; bydd angen i ddatblygwyr ddylunio ac adeiladu SDCau yn unol â'r Safonau er mwyn sicrhau cymeradwyaeth y Corff Cymeradwyo.

Datganiad Draenio

- 7.5 Gan fod y broses o gymeradwyo SDCau yn annibynnol ar y broses gynllunio, ceir risg y bydd cynigion gydymffurfio ag un system reoleiddio ond nid â'r llall. Lle bynnag y bo modd, dylid osgoi sefyllfa lle y rhoddir caniatâd cynllunio i gynllun ond lle na chaiff ei gymeradwyo gan y Corff

⁷ <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-06/safonau-cenedlaethol-statudol-ar-gyfer-systemau-draenio-cynaliadwy.pdf>

Cymeradwyo. Er mwyn osgoi sefyllfa o'r fath, mae'n bwysig ystyried gofynion cynllunio a gofynion y Corff Cymeradwyo ar y cyd a rhoi'r wybodaeth i benderfynwyr ar yr un pryd. Y ffordd orau o gyflawni hyn yw drwy wneud cais am y ddau fath o ganiatâd ar yr un pryd, gan sicrhau bod dogfennau'r cais cynllunio yn cynnwys holl fanylion y system ddraenio gynaliadwy arfaethedig.

7.6 Cynghorir mai cyflwyno'r ceisiadau ar yr un pryd yw'r ffordd orau o weithredu ond ni fydd hyn yn ddichonadwy bob amser. Os gwneir cais am ganiatâd cynllunio cyn cael cymeradwyaeth gan y Corff Cymeradwy, bydd disgwyl i'r ymgeisydd gyflwyno Datganiad Draenio fel rhan o'r broses gwneud cais. Dylai'r Datganiad Draenio amlinellu sut y bwriedir integreiddio system ddraenio gynaliadwy yn y cynllun er mwyn rhoi hyder i'r awdurdod cynllunio bod y cynllun yn ymgorffori system ddraenio gynaliadwy yn briodol a'i fod yn debygol o gael cymeradwyaeth y Corff Cymeradwyo wedi hynny. Ni ddylai'r datganiad arwain at gostau nac ymdrech ychwanegol i ymgeiswyr oherwydd bydd angen yr wybodaeth sydd ynddo ar gyfer proses ddilynol y Corff Cymeradwyo.

7.7 Mae Ffigur 3 yn nodi pa wybodaeth y dylid ei chynnwys fel rhan o Ddatganiad Draenio a gyflwynir i'r awdurdod cynllunio.

Ffigur 3 – Y Gofynion ar gyfer Datganiad Draenio

Yr wybodaeth y bydd ei hangen	Manylion
Manylion am leoliad y safle a'r trefniadau draenio sydd eisoes ar waith.	<i>Dylai'r Datganiad Draenio gynnwys disgrifiad o'r trefniadau draenio sydd eisoes ar waith ar gyfer y safle ac unrhyw dir cyfagos sy'n draenio i'r safle, ynghyd â manylion yr ardal athraidd bresennol ac arfaethedig (mewn m²).</i>
Manylion am y ffordd y caiff dŵr wyneb ei reoli a'i arllwys, gan sicrhau cydymffurfiaeth â'r safonau presennol ar gyfer SDCau.	<i>Dylai'r Datganiad Draenio gynnwys disgrifiad o b'un a yw ymdreiddiad ar gyfer y datblygiad arfaethedig yn ddichonadwy ai peidio. Dylid rhoi syniad o ba rai o'r dulliau arllwys isod a fyddai'n cael eu defnyddio, a hynny'n unol â'r Safonau Cenedlaethol ar gyfer SDCau. Caiff y rhain eu rhestru yn nhrefn blaenoriaeth a dylid esbonio'r rhesymau dros beidio â defnyddio unrhyw ddulliau â blaenoriaeth uwch:</i> <i>1. Caiff dŵr ffo wyneb ei gasglu i'w ddefnyddio</i>

	2. Mae dŵr ffo wyneb yn ymdreiddio i'r ddaear 3. Caiff dŵr ffo wyneb ei arllwys i gorff dŵr wyneb, h.y. cwrs dŵr 4. Caiff dŵr ffo wyneb ei arllwys i garthffos dŵr wyneb, draen priffordd, neu system ddraenio arall 5. Caiff dŵr ffo wyneb ei arllwys i garthffos gyfun <i>Dylai'r Datganiad Draenio gynnwys manylion am y broses o geisio a chael caniatadau perthnasol ar gyfer y lleoliad arllwys ynghyd â braslun cynllunio / bras-fap yn nodi ei leoliad fel rhan o'r cynnig.</i>
Gwybodaeth ar gyfer elfennau SDCau system draenio dŵr wyneb a syniad o'r gyfundrefn cynnal a chadw a fwriedir ar gyfer y dyfodol.	<i>Dylai'r Datganiad Draenio gynnwys disgrifiad o'r nodweddion draenio cynaliadwy a manylion am y ffordd y darperir ar eu cyfer o fewn y cynnig cyffredinol. Gallai rhagor o fanylion gael eu cynnwys fel rhan o fraslun cynllunio atodol.</i> <i>Dylai'r manylion am y gyfundrefn cynnal a chadw a fwriedir ar gyfer y dyfodol nodi a fydd gofyniad i system draenio dŵr wyneb, neu elfennau ohoni, gael ei mabwysiadu gan y Corff Cymeradwyo.⁸</i>

7.8 Dylai'r awdurdod cynllunio rannu'r Datganiad Draenio â'r Corff

Cymeradwyo, gan roi digon o amser i'r Corff roi adborth cyn i benderfyniad gael ei wneud ynghylch y cais cynllunio yn unol â'r egwyddorion cyffredinol a gaiff eu mabwysiadu / eu hymgorffori mewn datblygiadau newydd er mwyn rhoi sicrwydd y gellir dechrau ar broses gymeradwyo'r Corff Cymeradwyo yn hyderus.

7.9 Gall yr awdurdod cynllunio a'r Corff Cymeradwyo benderfynu bod y trefniadau draenio a amlinellir yn y Datganiad Draenio yn gadarn neu'n sylfaenol ddiffygiol, neu fod angen gwneud mân newidiadau iddynt. Mae'n

⁸ Noder y bydd yn ofynnol i systemau draenio dŵr wyneb sy'n gwasanaethu mwy nag un eiddo gael eu mabwysiadu gan y Corff Cymeradwyo.

bosibl y bydd Datganiadau Draenio annigonol a threfniadau draenio diffygiol yn rheswm i awdurdod cynllunio wrthod y cais cynllunio.

- 7.10 Os bydd y Datganiad Draenio a'r trefniadau arfaethedig yn dderbyniol ar y cyfan ond bod mân newidiadau'n cael eu hawgrymu, dylid rhoi adborth i'r ymgeisydd a all lywio'r cais dilynol am gymeradwyaeth gan y Corff Cymeradwyo. Yn y cyd-destun hwn, ystyr mân newidiadau yw unrhyw newidiadau i drefniadau draenio nad ydynt yn golygu bod angen gwneud newidiadau i'r cais cynllunio.
- 7.11 Mae systemau draenio cynaliadwy (SDCau) yn ofynnol ar gyfer y mwyafrif o ddatblygiadau newydd ac fe'u hanogir dan unrhyw amgylchiadau fel y ffordd fwyaf effeithiol o reoli dŵr wyneb mewn modd cynaliadwy. Dylai Cynlluniau Datblygu hyrwyddo trefniadau i reoli dŵr wyneb mor agos â phosibl at ei ffynhonnell ar gyfer pob datblygiad. Ynghyd ag ystyriaethau eraill ynghylch llifogydd, dylai systemau draenio fod yn rhan o'r broses o ddewis safle cyn gynted â phosibl, gan y bydd y ffordd y caiff dŵr ei reoli yn dylanwadu ar faterion allweddol megis cynllun a dwysedd datblygiad. Dylai gwybodaeth sydd gan yr awdurdod lleol a all helpu datblygwyr wrth gyflwyno ceisiadau cynllun dilynol gael ei chyhoeddi yn ei Gynllun Datblygu neu ochr yn ochr ag ef, a hynny ar ffurf canllawiau cynllunio atodol o bosibl.

8. Egwyddorion y Nodyn Cyngor Technegol at Ddibenion Cynlluniau Datblygu a Rheoli Datblygiadau

8.1 Mae'r Nodyn Cyngor Technegol yn adlewyrchu egwyddorion craidd y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru,⁹ er mwyn gweithredu mewn ffordd seiliedig ar risg mewn perthynas â datblygu mewn ardaloedd lle ceir perygl o lifogydd ac erydu arfordirol. Polisi Llywodraeth Cymru yw nad yw adeiladu amddiffynfeydd rhag llifogydd yn barhaus ym mhob ardal lle mae eu hangen yn gynaliadwy nac yn fforddiadwy. Fodd bynnag, cydnabyddir hefyd fod nifer mawr o aneddiadau sylweddol y gallai llifogydd effeithio arnynt lle y bydd angen rhagor o amddiffynfeydd rhag llifogydd. Mae'r polisïau a nodir yn Cymru'r Dyfodol yn rhoi cyd-destun ar gyfer blaenoriaethu gwaith amddiffyn rhag llifogydd. Mae'r cyngor yn y ddogfen hon yn ceisio sicrhau y caiff perygl llifogydd ac erydu arfordirol eu hystyried yn briodol yn y system gynllunio.

Wrth ystyried perygl llifogydd ac erydu arfordirol, mae'r term 'perygl' yn cwmpasu dau beth:

1 – Y tebygolrwydd y bydd rhywbeth yn digwydd,

2 – Yr effaith os bydd llifogydd neu erydu arfordirol yn digwydd.

8.2 Bydd y gallu i osgoi neu leihau perygl wrth ddatblygu yn amrywio yn dibynnu ar y math o ddatblygiad a gynigir.

8.3 Mae'r Strategaeth Genedlaethol yn cydnabod graddau amrywiol perygl llifogydd, nawr ac yn y dyfodol. Mae'r Mapiau Perygl Llifogydd ar gyfer Cynllunio yn categoreiddio tir yn barthau penodol yn dibynnu ar eu bregusrwydd i lifogydd fel y disgrifir yn adran 9. Nodir yn glir yn y Strategaeth Genedlaethol fod angen rheoli perygl yn briodol, ac mae'r Nodyn Cyngor Technegol yn ei gwneud yn ofynnol ymateb yn gymesur i'r perygl hwnnw. Mae'n amlwg bod llawer o gymunedau wedi'u lleoli mewn ardaloedd lle ceir mwy o berygl o lifogydd, ond rhaid galluogi'r cymunedau hyn i addasu, newid, ac adfywio gan wybod beth mae'r wyddoniaeth yn ei ddangos. Drwy gydol y Nodyn Cyngor Technegol hwn, ceir cyfeiriadau at ddatblygiad newydd ac ailddatblygiad, ac fe'u diffinnir isod.

Datblygiad Newydd	Unrhyw ddatblygiad ar dir maes glas
Ailddatblygiad	Unrhyw ddatblygiad ar dir a ddatblygwyd yn flaenorol fel y'i diffinnir ym Mholisi Cynllunio Cymru (PCC)

8.4 Yn gyffredinol, mae PCC yn ffafrio aildddefnyddio tir a ddatblygwyd yn flaenorol cyn tir maes glas, ond mae'n cydnabod ei bod yn bosibl na fydd

⁹ Mae'r Strategaeth Genedlaethol i'w gweld yma: <https://www.llyw.cymru/strategaeth-genedlaethol-ar-gyfer-rheoli-perygl-llifogydd-ac-erydu-arfordirol-yng-nghymru>

hyn yn briodol ym mhob achos. Nid yw'r Nodyn Cyngor Technegol hwn yn newid hyn.

8.5 Mae'r ffordd o weithredu a nodir yn y Nodyn Cyngor Technegol hwn yn seiliedig ar y canlynol:

- Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio sy'n nodi parthau llifogydd;
- Diffinio datblygiadau yn ôl eu bregusrwydd yn ystod digwyddiadau llifogydd;
- Cyngor ar ddefnyddiau a ganiateir mewn perthynas â lleoliad y datblygiad a chanlyniadau llifogydd;
- Paratoi asesiad strategol o ganlyniadau llifogydd ac asesiad o ganlyniadau llifogydd ar lefel leol er mwyn mireinio dealltwriaeth o berygl llifogydd;
- Awdurdodau cynllunio yn ymgorffori ystyriaethau perygl llifogydd lleol yn eu polisiau a'u penderfyniadau cynllunio.

8.6 Mae'r dull seiliedig ar risg yn cydnabod na ellir rheoli a lliniaru perygl llifogydd o ddŵr wyneb a chysiau dŵr cyffredin bob amser, yn enwedig gan fod y ffynonellau perygl hyn yn cynyddu o ganlyniad i newid hinsawdd. Mae'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio yn rhoi gwybodaeth am y peryglon hyn er mwyn galluogi awdurdodau cynllunio i ddatblygu dulliau sy'n briodol yn lleol ar gyfer ardaloedd sydd mewn perygl, neu sy'n agos at berygl. Gall dulliau sy'n briodol yn lleol gael eu hymgorffori yn y Cynllun Datblygu drwy bennu polisiau lleol, i gael eu defnyddio yn y broses gwneud penderfyniadau ar gyfer ceisiadau cynllunio.

8.7 Dylid osgoi datblygu ac ailddatblygu os bydd risg y gall erydu arfordirol effeithio arnynt yn ystod oes y datblygiad. Dylai polisiau cynllunio lleol ar gyfer ardaloedd arfordirol adlewyrchu ac ategu Polisi Cynllunio Cymru (PCC), Cymru'r Dyfodol – y Cynllun Cenedlaethol 2040, Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru, y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol, Cynlluniau Rheoli Traethlin, Datganiadau Ardal, a strategaethau perthnasol eraill.

9. Bregusrwydd i Llifogydd

9.1 Gall canlyniadau digwyddiad llifogydd fod yn wahanol i wahanol fathau o ddatblygiadau, ac mae hynny'n dylanwadu ar ble sy'n lleoliad derbyniol ar gyfer datblygiad. Er enghraifft, gall llifogydd mewn ardaloedd preswyl arwain at effaith drawmatig ar fywydau. Fodd bynnag, mae'n bosibl y gall defnyddiau tir eraill reoli llifogydd anfynd neu lefel isel mewn ffordd ddefnyddiol – gall y math hwn o lifogydd achosi tarfu ond mae'n annhebygol o fod yn beryglus. Mae Ffigur 4 yn categorïddio mathau o ddatblygiad yn ôl eu bregusrwydd yn achos llifogydd.

Ffigur 4 – Categorïau bregusrwydd datblygiadau

Categori bregusrwydd	Mathau
Datblygiad bregus iawn	Pob safle preswyl (gan gynnwys gwestai, safleoedd Sipsiwn a Theithwyr, parciau carafannau a safleoedd gwersylla). Ysgolion a sefydliadau gofal plant, colegau a phrifysgolion. Ysbytai a meddygfeydd. Datblygiad diwydiannol arbennig o fregus (e.e. elfennau cynhyrchu a dosbarthu ynni gorsafoedd ynni, newidyddion, gweithfeydd cemegol, llosgwyr), a safleoedd gwaredu gwastraff. Gwasanaethau brys, gan gynnwys: gorsafoedd ambiwlans, gorsafoedd tân, gorsafoedd heddlu, canolfannau gorchymyn, depos brys. Adeiladau a ddefnyddir i gynnig lloches argyfwng yn ystod llifogydd.
Datblygiad llai bregus	Datblygiad diwydiannol, cyflogaeth, masnachol a manwerthu cyffredinol. Seilwaith trafnidiaeth a chyfleustodau. Meysydd parcio. Safleoedd echdynnu mwynau a chyfleusterau prosesu cysylltiedig (heb gynnwys safleoedd gwaredu gwastraff). Adeiladau cyhoeddus gan gynnwys llyfrgelloedd, canolfannau cymunedol a chanolfannau hamdden (heb gynnwys y rhai a nodir yn y categori Bregus lawn a llochesau argyfwng).

	Mannau addoli. Mynwentydd. Mannau chwarae sydd â chyfarpar. Cyfleusterau cynhyrchu ynni adnewyddadwy (heb gynnwys cynhyrchu trydan dŵr).
Datblygiad sy'n gydnaws â dŵr	Iardiau cychod, marinas a gwaith hanfodol sy'n ofynnol mewn basnau angori. Datblygiad sy'n gysylltiedig â chamlesi. Amddiffynfeydd rhag llifogydd a seilwaith rheoli. Mannau agored (heb gynnwys mannau chwarae sydd â chyfarpar). Safleoedd cynhyrchu ynni trydan dŵr adnewyddadwy.

9.2 Datblygiad lle y bydd gallu meddianwyr i benderfynu a ydynt yn dymuno derbyn y perygl i fywyd ac eiddo sy'n gysylltiedig â llifogydd, neu i reoli canlyniadau perygl o'r fath, yn gyfyngedig yw datblygiad bregus iawn. Mae hyn hefyd yn cynnwys y defnyddiau diwydiannol hynny lle y byddai perygl perthynol i'r cyhoedd ac amgylchedd y dŵr pe bai llifogydd ar y safle. Mae angen i wasanaethau brys a chanolfannau gorchymyn awdurdodau lleol fod yn weithredol ac yn hygyrch bob amser ac felly ystyrir eu bod yn fregus iawn.¹⁰

9.3 Datblygiad lle y bydd gallu meddianwyr i benderfynu a yw peryglon a chanlyniadau yn dderbyniol yn fwy na'r hyn a geir yn y categori bregus iawn yw datblygiad llai bregus.

9.4 Mae datblygiadau sy'n gydnaws â dŵr yn cynnwys datblygiadau y mae'n ofynnol iddynt gael eu lleoli'n agos at ddŵr oherwydd eu natur, a datblygiadau sy'n gallu gwrthsefyll effeithiau llifogydd achlysurol.

9.5 Nid yw'r rhestr yn Ffigur 4 yn hollgynhwysfawr, felly dylai penderfynwyr arfer barn broffesiynol wrth ystyried categorïau o ddatblygiadau nad ydynt wedi'u rhestru'n benodol yn seiliedig ar y perygl i fywydau a bywoliaeth pobl os bydd llifogydd. Fodd bynnag, y rhestr yw'r sail ar gyfer y math o ddatblygiad a gwmpesir gan y Cyfarwyddyd Hysbysu.

9.6 Mae hefyd yn bosibl y bydd angen i benderfynwyr ystyried a yw datblygiad arfaethedig yn cynnwys defnyddiau tir o fwy nag un categori bregusrwydd. Ar gyfer datblygiadau mwy, cynlluniau defnydd cymysg a'r rhai sy'n cynnwys mwy nag un adeilad, mae'n bosibl na fydd yn briodol dewis dim ond un categori bregusrwydd. Mae'n bosibl y bydd yn briodol ystyried bod rhai rhannau o ddatblygiad yn rhai bregus iawn a rhannau eraill yn rhai llai

¹⁰ Mae'n bosibl y bydd angen i orsafoedd gwylwyr y glannau, y mae'n rhaid eu lleoli ger yr arfordir, gael eu trin yn wahanol. Bydd yn hollbwysig cynnal ffyrdd i mewn ac allan bob amser.

bregus neu'n rhai sy'n gydnaws â dŵr. Gall hyn gynnig rhywfaint o hyblygrwydd wrth ystyried y ffordd orau o ddefnyddio safleoedd y mae rhannau ohonynt mewn ardaloedd lle ceir perygl o lifogydd. Gall lleoli rhai mathau o nodweddion systemau draenio cynaliadwy (SDCau) a mannau agored mewn ardaloedd lle ceir perygl o lifogydd a defnyddio'r tir ar gyfer mesurau lliniaru llifogydd priodol, er enghraifft, helpu i wneud y defnydd gorau o safle. Gall gwneud dŵr yn nodwedd annatod o fewn datblygiad wella dyluniad a gweithrediad lleoedd.

- 9.7 Dylai pob datblygiad newydd bach, gan gynnwys anheddau unigol, gael eu hystyried mewn un categori bregusrwydd. Er enghraifft, mae'n bwysig y dylai gerddi, llwybrau mynediad a dreifiau annedd preswyl aros yn rhydd rhag llifogydd, felly dylid ystyried bod ardal gyfan y datblygiad yn fregus dros ben.

10. Llifogydd a'r System sy'n Dilyn Cynllun

- 10.1 Cynlluniau Datblygu sy'n gosod y cyd-destun at gyfer gwneud penderfyniadau mewn ffordd resymegol a chyson ac maent yn rhoi sicrwydd i ddatblygwyr a'r cyhoedd ynglŷn â'r math o ddatblygiad a ganiateir mewn lleoliad penodol.

Cymru'r Dyfodol

- 10.2 Cymru'r Dyfodol sy'n pennu'r polisiâu strategol cenedlaethol ar gyfer cynlluniau datblygu yng Nghymru. Mae'n nodi ardaloedd twf cenedlaethol a rhanbarthol allweddol ac ystyriaethau cynllunio cenedlaethol mewn perthynas â pherygl llifogydd. Mae'n pennu y bydd Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar gyflawni cynlluniau sy'n seiliedig ar natur ac atgyfnerthu amddiffynfeydd er mwyn amddiffyn ardaloedd datblygedig yn well. Hefyd, mae'n gwneud ymrwymiad cadarn i gefnogi trefniadau rheoli perygl llifogydd sy'n galluogi twf ac adfywio mewn ardaloedd twf cenedlaethol a rhanbarthol.
- 10.3 Mae daearyddiaeth a hanes diwydiannol Cymru'n golygu bod nifer sylweddol o gymunedau trefol mawr wedi'u lleoli mewn ardaloedd lle ceir perygl o lifogydd. Mae llawer o'r rhain wedi cael eu cydnabod fel Ardaloedd Twf Cenedlaethol neu Rhanbarthol yn Cymru'r Dyfodol – y Cynllun Cenedlaethol 2040. Dylid cefnogi cymunedau mewn ardaloedd o'r fath er mwyn iddynt barhau i fod yn hyfyw ac yn fywiog a gallu gwrthsefyll llifogydd, ac mae Cymru'r Dyfodol yn cynnwys ymrwymiad polisi y bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi mentrau rheoli perygl llifogydd mewn Ardaloedd Twf Cenedlaethol a Rhanbarthol. Ar y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio, mae rhai rhannau o'r Ardaloedd Twf ym Mharthau a Amddiffynnir TAN 15 ond ceir llawer sy'n wynebu perygl o afonydd a'r môr ac sydd ym Mharth 2 neu Barth 3 ar hyn o bryd.
- 10.4 Diben y Nodyn Cyngor Technegol hwn yw sicrhau y rhoddir ystyriaeth ddigonol i'r peryglon sy'n gysylltiedig â llifogydd. Cydnabyddir y gall mentrau i leihau perygl llifogydd a gwella'r gallu i wrthsefyll llifogydd fod yn gatalydd ar gyfer adfywio. Rhaid i unrhyw gynigion adfywio strategol mewn ardaloedd lle ceir perygl o lifogydd gael eu cyfiawnhau'n llawn gan y Cynllun Datblygu Lleol.

Cynlluniau Datblygu a Chynlluniau Seilwaith Lleol

- 10.5 Mae'n hanfodol bod Cynlluniau Datblygu Lleol yn cydnabod y peryglon sy'n gysylltiedig â llifogydd yn llawn a bod egwyddorion y Nodyn Cyngor Technegol hwn yn cael eu defnyddio i benderfynu ar leoliad a natur cynigion datblygu newydd. Os bydd yn amlwg bod perygl llifogydd yn effeithio ar strategaeth Cynllun Datblygu Lleol (CDLI), bydd yn rhaid i'r cynllun gynnwys mesurau priodol i liniaru ac amddiffyn yr ardaloedd lle ceir y perygl mwyaf yn seiliedig ar yr Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd. Mae Llawlyfr Cynlluniau Datblygu 2020¹¹ yn ei gwneud yn

¹¹ Llawlyfr Cynlluniau Datblygu 2020 Argraffiad 3 [llawlyfr-cynlluniau-datblygu-argraffiad-3-mawrth-2020.pdf](#) (llyw.cymru)

ofynnol i awdurdodau cynllunio baratoi Cynllun Seilwaith sy'n nodi'r seilwaith a fydd yn angenrheidiol er mwyn helpu i roi'r CDLI ar waith a'i gyflawni. Rhaid i'r Cynllun Seilwaith ddangos capasiti'r seilwaith gofynnol, ei leoliad, sut y caiff ei gyllido a'r amserlen ar gyfer ei adeiladu. Rhaid i unrhyw CDLI sy'n cynnwys polisiâu neu gynigion y bydd perygl llifogydd yn effeithio arnynt fel y nodir yn y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio gael ei ategu gan Gynllun Seilwaith sy'n ymgorffori mesurau lliniaru llifogydd priodol gan gynnwys adeiladu amddiffynfeydd newydd ac atgyfnerthedig. Caiff priodoldeb mesurau lliniaru arfaethedig ei brofi fel rhan o broses archwilio'r CDLI.

10.6 Rhaid i awdurdodau lleol ystyried sut y caiff mesurau lliniaru eu cyllido a'u cynnal a'u cadw. Bydd yn rhaid i'r holl opsiynau, gan gynnwys manteisio ar gyfraniadau o'r sector preifat drwy'r Ardoll Seilwaith Cymunedol, gael eu hystyried a'u harchwilio'n llawn. Ni ddylid disgwyl i Lywodraeth Cymru na chyrff cyhoeddus eraill megis CNC allu cyllido'r holl gynigion na bod yn fodlon gwneud hynny.

10.7 Rhaid i awdurdodau lleol sydd am hyrwyddo cynlluniau ailddatblygu ar dir ym mharthau 2 a 3 cyn i CDLI gael ei fabwysiadu ystyried y perygl llifogydd sy'n gysylltiedig â'r ailddatblygiad a nodi mesurau lliniaru llifogydd priodol a fyddai'n cynnig amddiffyniad digonol i'w symud i'r Parth a Amddiffynnir. Wrth wneud hyn, rhaid iddynt dderbyn na fydd amddiffynfeydd rhag llifogydd yn gwarantu amddiffyniad rhag llifogydd a rhaid i'r peryglon sy'n gysylltiedig ag ailddatblygiad arfaethedig gael eu hasesu'n llawn a bod yn dderbyniol i'r penderfynwr. Dylai mesurau lliniaru llifogydd gael eu rhoi ar waith cyn y cynigion ailddatblygu neu ar yr un pryd â nhw. Bydd awdurdodau lleol sy'n caniatáu cynlluniau cyn i'r seilwaith lliniaru llifogydd gael ei roi ar waith wedi penderfynu bod y perygl llifogydd yn dderbyniol a byddant yn atebol i'r cyhoedd am eu penderfyniadau.

Cymhwyso Parthau Llifogydd at Gynlluniau Datblygu a Phenderfyniadau Rheoli Datblygiadau

10.8 Mae dull sy'n dilyn cynllun yn hanfodol er mwyn ystyried perygl llifogydd. Cynlluniau Datblygu Lleol yw'r prif ddogfennau ar gyfer cydgysylltu gweithgareddau adfywio a lliniaru perygl llifogydd. Ni ddylai polisiâu ar berygl llifogydd ailadrodd polisi cenedlaethol; yn hytrach, dylent ganolbwyntio ar ofynion sy'n benodol i'r ardal leol ar sail yr hyn a nodir yn yr Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd.

10.9 Yn yr un modd, dylai polisiâu ar ddatblygu arfordirol fod yn benodol i nodweddion yr arfordir yn ardal y cynllun. Gall polisiâu nodi mathau o ddatblygiadau a all fod yn dderbyniol yn ogystal â mathau na chânt eu cefnogi mewn ardaloedd arfordirol. Dylai uchelgais polisiâu Cynlluniau Rheoli Traethlin gael ei adlewyrchu'n glir.

10.10 Dylid dewis safleoedd mewn ffordd sy'n cefnogi uchelgeisiau cyffredinol y Cynllun Datblygu, a dylent adlewyrchu'r egwyddorion creu lleoedd a nodir yn PCC.

Parth 1

Ystyriaethau CDLI

- 10.11 Dylai awdurdodau cynllunio flaenoriaethu pob math o ddatblygiad i Barth 1. Rhaid i unrhyw ddatblygiad a neilltuir gael ei gyfiawnhau'n llawn a helpu i gyflawni strategaeth y CDLI. Mae tir maes glas yn cynnig capasiti neu le pwysig i reoli neu arafu llif llifddwr. Pan fydd tir wedi'i ddatblygu, bydd ganddo lai o allu i storio dŵr dros ben, yn enwedig yn ystod llifogydd mwy difrifol a digwyddiadau glaw dwys iawn.

Ceisiadau Cynllunio

- 10.12 Mae ceisiadau ar gyfer pob math o ddatblygiad, newid defnydd neu addasu adeilad yn dderbyniol mewn egwyddor. Yn seiliedig ar yr wybodaeth mewn Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd, dylai awdurdodau cynllunio ddatblygu polisïau cynllunio sy'n benodol i'r ardal leol ar gyfer ardaloedd lle ceir perygl o lifogydd, er mwyn gallu eu defnyddio i asesu ceisiadau.

Parthau a Amddiffynnir

- 10.13 Bydd angen ystyried yn ofalus cyn neilltuo safleoedd ar gyfer datblygiadau newydd mewn Parthau a Amddiffynnir, oherwydd gall methiant amddiffynfeydd rhag llifogydd arwain at lifogydd trychinebus yn yr ardaloedd y tu ôl i'r amddiffynfeydd hynny. Nid yw presenoldeb amddiffynfeydd ffurfiol rhag llifogydd yn gwarantu y bydd tir yn y Parth a Amddiffynnir yn parhau i fod yn rhydd rhag llifogydd yn y dyfodol, gan mai dim ond lleihau'r perygl llifogydd y maent yn ei wneud. Mae'n bosibl i ddŵr godi'n uwch na'r amddiffynfeydd mwyaf modern rhag llifogydd hyd yn oed, a/neu eu torri, gan arwain at ddigwyddiadau llifogydd sylweddol. Mae effaith newid hinsawdd yn golygu mai dim ond cynyddu fydd y peryglon hyn.
- 10.14 Un o'r rhagofynion cyn cynnig unrhyw ddatblygiad mewn Parthau a Amddiffynnir yw ei bod yn rhaid i awdurdodau cynllunio lleol ddeall ansawdd a chyflwr yr amddiffynfeydd presennol rhag llifogydd yn llawn, yn ogystal â lefel yr amddiffyniad a gynigir ganddynt nawr ac yn y dyfodol.

Ystyriaethau CDLI

- 10.15 Fel egwyddor gyffredinol, dylai CDLlau geisio osgoi dwysáu defnyddiau tir mewn Parthau a Amddiffynnir a dylai adeiladau newydd a godir yn lle hen rai neu gynlluniau ailddatblygu fod ar yr un raddfa â'r defnyddiau presennol yn fras. Gall safleoedd maes glas gynnig cyfleoedd pwysig i wanhau llifogydd ac mae ganddynt y gallu i storio a rheoli dŵr os bydd llifogydd. Ni ddylid adeiladu arnynt oni chaiff safleoedd eraill sy'n gwneud cyfraniad amlwg at wella trefniadau rheoli llifogydd eu cyflwyno yn eu lle.
- 10.16 Cyn neilltuo tir mewn Parthau a Amddiffynnir, bydd awdurdodau cynllunio lleol wedi cynnal asesiad perygl llifogydd llawn drwy Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd, ac astudiaethau ychwanegol eraill os bydd angen, er mwyn deall y tebygolrwydd o lifogydd yn yr ardal a'u canlyniadau posibl. Rhaid iddynt ddeall y perygl o bob ffynhonnell, gan gynnwys afonydd, y môr, dŵr wyneb a dŵr daear. Yn seiliedig ar y dystiolaeth hon, dylai awdurdodau geisio blaenoriaethu ailddatblygiadau mewn ardaloedd lle ceir

perygl is o lifogydd. Bydd yn bwysig ystyried dyluniadau sy'n gallu gwrthsefyll llifogydd fel y nodir yn adran 13 yn fanwl.

Ceisiadau Cynllunio

- 10.17 Nid yw ceisiadau ar gyfer datblygiadau newydd ar safleoedd maes glas yn briodol mewn Parthau a Amddiffynnir oni chânt eu neilltuo mewn cynlluniau datblygu. Ar safleoedd tir llwyd, ni ddylai cynigion ailddatblygu or-ddwysáu defnydd ac ni ddylent ychwaith leihau gallu'r ardal i amsugno llifddwr nac achosi problemau o ran llifogydd yn unman arall. Dylai pob cais ystyried cyfleoedd i ymgorffori dyluniadau sy'n gallu gwrthsefyll llifogydd fel y bo'n briodol a rhaid i unrhyw gynnig sy'n cynnwys datblygiad bregus iawn gydymffurfio â'r amodau goddefadwy a nodir yn adran 11.

Parth 2

Ystyriaethau CDLI

- 10.18 Ym Mharth 2, gellir neilltuo safleoedd ar gyfer datblygiadau newydd ac ailddatblygiadau ar unrhyw lefel bregusrwydd sy'n angenrheidiol er mwyn cyflawni strategaeth CDLI, strategaeth i adfywio aneddiadau sydd eisoes yn bodoli neu amcanion economaidd neu amgylcheddol allweddol, ar yr amod bod Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd wedi nodi lefel briodol o berygl. Gellir hefyd neilltuo tir ym Mharth 2 ar gyfer datblygiadau newydd ac ailddatblygiadau sy'n diwallu anghenion o ran diogelwch gwladol neu ddiogelu ffynonellau ynni, yn lliniaru effeithiau newid hinsawdd, sy'n angenrheidiol er mwyn diogelu a hybu iechyd y cyhoedd, neu y gall yr awdurdod cynllunio ddangos eu bod yn hanfodol er mwyn gwireddu strategaeth y CDLI ar yr amod bod Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd wedi nodi lefel briodol o berygl. Ni ddylai datblygiadau atodol na datblygiadau nad ydynt yn hanfodol gyd-fynd â seilwaith hanfodol o'r math hwn. Mae dyluniadau sy'n gallu gwrthsefyll llifogydd yn bwysicach ym Mharth 2 na Pharth 1 a dylai awdurdodau eu gwneud yn ofynnol drwy gynnwys polisiâu priodol mewn CDLIau a defnyddio amodau cynllunio.

Ceisiadau Cynllunio

- 10.19 Bydd angen i geisiadau cynllunio ym Mharth 2 gael eu hystyried yn ofalus a bod yn gyson â'r ystyriaethau derbynioldeb a nodir yn adran 11. Hefyd, rhaid i Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd gael ei gyflwyno ar yr un pryd, gan ddisgrifio'r perygl llifogydd yn glir, a rhaid i'r peryglon fod yn dderbyniol. Dim ond pan fydd y safle wedi cael ei neilltuo mewn Cynlluniau Datblygu mabwysiedig y bydd ceisiadau ar gyfer datblygiadau bregus iawn ar dir maes glas yn briodol. Bydd angen i gynigion ar gyfer ailddatblygu ar dir llwyd ar unrhyw lefel bregusrwydd helpu strategaeth y Cynllun Datblygu i adfywio anheddiad sydd eisoes yn bodoli neu gyflawni amcanion economaidd neu amgylcheddol allweddol, a bod yn gyson â'r strategaeth honno. Pan fydd cynigion ar gyfer ailddatblygu yn cynnwys defnydd preswyl, dylai awdurdodau lleol sicrhau na fydd defnyddiau o'r fath yn digwydd ar lefel llawr gwaelod, a bydd hefyd angen iddynt fod yn gydnaws â'r amodau goddefadwy a nodir yn adran 11 a dangos dyluniadau sy'n gallu gwrthsefyll llifogydd fel y'u disgrifir yn adran 13.

Parth 3

Ystyriaethau CDLI

- 10.20 **Ym Mharth 3, ni ddylid neilltuo safleoedd ar gyfer datblygiadau newydd bregus iawn** oherwydd nid ystyrir bod perygl a chanlyniadau llifogydd yn dderbyniol ar gyfer y mathau hyn o ddatblygiadau. Dim ond dan amgylchiadau eithriadol y dylid neilltuo safleoedd ar gyfer datblygiadau newydd llai bregus. Diffinnir amgylchiadau eithriadol fel diwallu anghenion o ran diogelwch gwladol neu ddiogelu ffynonellau ynni, rhesymau sy'n ymwneud ag iechyd y cyhoedd neu liniaru effeithiau newid hinsawdd lle ceir angen lleol clir a lle na ellir lleoli'r datblygiad yn unman arall.
- 10.21 Dylid osgoi neilltuo safleoedd ar gyfer ailddatblygu ym Mharth 3 a dim ond dan amgylchiadau eithriadol lle y bydd yn hanfodol i strategaeth CDLI neu lle y bydd yn diwallu anghenion o ran diogelwch gwladol, diogelu ffynonellau ynni neu iechyd y cyhoedd neu'n liniaru effeithiau newid hinsawdd y dylid gwneud hynny. Ni ddylai awdurdodau cynllunio neilltuo safleoedd ar gyfer ailddatblygiadau bregus iawn oni bai bod ymrwymiad clir i roi mesurau lliniaru llifogydd ar waith i amddiffyn y safleoedd hynny. Rhaid i fesurau o'r fath gael eu nodi yng Nghynllun Seilwaith y CDLI.

Ceisiadau Cynllunio

- 10.22 **Ceisiadau cynllunio ym Mharth 3 sy'n gofyn am y cyfiawnhad cryfaf. Ni ddylid caniatáu'r un datblygiad bregus iawn ar dir llwyd ym Mharth 3 waeth beth fo casgliad unrhyw Asesiadau o Ganlyniadau Llifogydd ac ni fydd CNC yn ystyried y casgliadau hyn. Rhaid i Weinidogion Cymru gael eu hysbysu ynghylch unrhyw gynnig o'r fath y mae awdurdod cynllunio yn bwriadu ei gymeradwyo.**
- 10.23 Dim ond os byddant yn hanfodol i strategaeth y Cynllun Datblygu i adfywio anheddiad sydd eisoes yn bodoli neu gyflawni amcanion economaidd neu amgylcheddol allweddol y bydd cynigion eraill yn briodol. Rhaid i unrhyw gynnig ailddatblygu fod yn gyson â'r ystyriaethau derbynioldeb yn adran 11. Hefyd, bydd yn rhaid i gynigion sy'n cynnwys datblygiadau preswyl sicrhau na fydd defnyddiau o'r fath yn digwydd ar lefel llawr gwaelod. Mae'n bosibl y bydd cynigion sy'n diwallu anghenion o ran diogelwch gwladol neu ddiogelu ffynonellau ynni, yn liniaru effeithiau newid hinsawdd neu sy'n angenrheidiol er mwyn diogelu a hybu iechyd y cyhoedd, drwy eithriad, yn briodol ar yr amod bod eu hangen lleol yn amlwg a bod y canlyniadau posibl yn sgil llifogydd wedi cael eu hystyried ac y tybir eu bod yn dderbyniol.
- 10.24 Ym Mharthau 2 a 3 a Pharthau a Amddiffynnir TAN 15, rhaid i ddatblygwyr gynnal asesiad o ganlyniadau llifogydd sy'n gymesur â natur a graddfa'r cynnig. Cyn rhoi caniatâd, dylai penderfynwyr fod yn fodlon y gellir cyfiawnhau'r cynllun yn unol â'r egwyddorion a nodir yn adran 8 ac, os na fyddant yn fodlon, dylid gwrthod rhoi caniatâd cynllunio. Yn y parthau hyn, dylai awdurdodau cynllunio chwilio am bob cyfle i gynnig gwell amddiffyniad rhag llifogydd i'r cymunedau sydd eisoes yn bodoli ac sydd mewn perygl.

- 10.25 Mae datblygiadau sy'n gydnaws â dŵr yn dderbyniol ym mhob parth llifogydd.
- 10.26 Dylid gofyn i CNC am gyngor ynglŷn â senarios torri a rhwystro i'w hasesu ar gyfer amddiffynfeydd rhag llifogydd ac adeileddau a all ddylanwadu ar llifogydd yn lleol. Os bydd angen asesiad ar gyfer torri amddiffynfa neu rwystro adeiledd, dylid ystyried mai hwn yw'r 'digwyddiad dylunio'. Dylai awdurdodau cynllunio a CNC ystyried yr wybodaeth hon er mwyn canfod unrhyw ardaloedd lle y gallai'r perygl y bydd dŵr yn codi'n uwch nag amddiffynfeydd neu'n eu torri, neu y caiff adeileddau eu rhwystro, fod yn ddigon difrifol fel bod datblygiad yn amhriodol. Os deuir o hyd i unrhyw ardaloedd o'r fath, dylid eu nodi yn y cynllun datblygu. Mewn rhai achosion, mae'n bosibl y bydd yn briodol cynnwys polisi yn y cynllun datblygu er mwyn ceisio sicrhau buddsoddiad yn yr amddiffynfa rhag llifogydd neu'r adeiledd o fewn sianel a fyddai'n lleihau'r perygl o dorri neu rwystro.
- 10.27 Dylai tir a neilltuir ar gyfer datblygiad newydd ym Mharth perygl llifogydd 2 neu 3 gynnwys llifogydd wedi'u hanodi fel cyfyngiad ar gyfer y safle unigol, naill ai yn y Cynllun Datblygu neu ar y map cynigion. Dylai unrhyw ofynion sy'n gysylltiedig â llifogydd ar gyfer datblygu'r safle hwnnw gael eu nodi yn y Cynllun Datblygu. Bydd hyn yn cynnwys nodi'n glir y bydd angen i'r datblygwr, wrth fwrw ymlaen â'r broses o ddatblygu'r safle a neilltuwyd, gynnal asesiadau technegol manwl cyn cyflwyno cais cynllunio.
- 10.28 Dylai'r awdurdod cynllunio fod yn fodlon y bydd unrhyw ddatblygiad y bydd yn ei neilltuo yn gallu gwrthsefyll llifogydd drwy gydol ei oes. Gan ddefnyddio'r amcanestyniadau newid hinsawdd cenedlaethol mwyaf cyfredol, dylai awdurdodau cynllunio sicrhau y bydd anheddau newydd yn lleoedd diogel i fyw ynddynt nawr ac yn y dyfodol. Yn gyffredinol, mae'n briodol ystyried y bydd gan anheddau newydd oes o 100 mlynedd. Bydd oes mathau eraill o ddatblygiadau yn amrywio, ond ystyrir bod 75 mlynedd yn rheol gyffredinol resymol. Dylai awdurdodau cynllunio ddilyn yr egwyddor hon yn ofalus mewn perthynas â phob math o ddatblygiad.
- 10.29 Mae'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio yn cynnwys senarios newid hinsawdd 100 mlynedd. Pan fydd gan ddatblygiadau newydd oes fyrrach, bydd yn rhesymol i'r asesiad o ganlyniadau llifogydd ganolbwyntio ar risgiau posibl yn ystod oes ddisgwyliedig y datblygiad.

11. Derbynioldeb canlyniadau llifogydd

11.1 Os bydd yr awdurdod cynllunio yn fodlon bod datblygiad arfaethedig mewn parth perygl llifogydd yn dderbyniol, bydd yn ei gyfiawnhau gan wybod y gallai'r datblygiadau hynny wynebu llifogydd ac y bydd angen ei gynllunio'n unol â hynny. Bydd angen dealltwriaeth lawn o'r peryglon a'r canlyniadau posibl fel sail i benderfyniad yr awdurdod cynllunio. Cyn i'r awdurdod cynllunio benderfynu ar gais, bydd yn rhaid cynnal Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd sy'n briodol i natur a graddfa'r datblygiad arfaethedig. Rhaid i'r asesiad roi digon o wybodaeth i'r penderfynwr allu ystyried goblygiadau llifogydd a'u pwyso a mesur yn erbyn ystyriaethau eraill.

11.2 Oherwydd costau cyhoeddus a phreifat llifogydd, mae angen datblygu'n ofalus o fewn ardaloedd lle ceir perygl o lifogydd mewn ffordd sy'n cydnabod natur ansicr rhagolygon presennol. Mae'n bwysig ystyried y natur ansicr hon yn llawn o fewn yr asesiad er mwyn sicrhau y gellir gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth.

Meini prawf derbynioldeb ar gyfer canlyniadau llifogydd

11.3 Bydd p'un a ddylai datblygiad fynd rhagddo ai peidio yn dibynnu ar b'un a ellir rheoli canlyniadau llifogydd yn ddiogel ai peidio, gan gynnwys yr effaith ar berygl llifogydd mewn mannau eraill.

11.4 Ceir gofynion y bydd yn rhaid eu rhoi ar waith ar gyfer unrhyw ddatblygiad y caniateir ei leoli mewn ardaloedd lle ceir perygl o lifogydd. Dan unrhyw amgylchiadau, dylai datblygwyr ac awdurdodau cynllunio sicrhau y caiff yr amodau canlynol eu bodloni:

- Ni fydd cynnydd mewn llifogydd yn unman arall
- Mae'r meddianwyr yn ymwybodol o'r perygl llifogydd
- Mae llwybrau dianc/ymadael yn bresennol
- Mae cynlluniau a gweithdrefnau argyfwng ar gyfer llifogydd wedi cael eu pennu a'u rhoi ar waith
- Mae'r dyluniad yn gydnerth ac yn gallu gwrthsefyll llifogydd
- Mae'r canlyniadau'n dderbyniol ar gyfer y math o ddefnydd (gweler y canllawiau manwl isod)

11.5 Dylai'r Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd ganfod a ellir ymgorffori mesurau osgoi a lliniaru addas, mewn modd sy'n gydnaws â nodau creu lleoedd PCC, yn nyluniad y safle er mwyn sicrhau bod y datblygiad yn ddiogel ac yn cyflawni'r canlynol:

- cyn lleied â phosibl o berygl i fywyd;
- cyn lleied â phosibl o darfu ar bobl sy'n byw ac yn gweithio yn yr ardal;
- cyn lleied â phosibl difrod i eiddo;
- cyn lleied â phosibl o effaith ar berygl llifogydd yn gyffredinol yn sgil y datblygiad arfaethedig;
- cyn lleied â phosibl o darfu ar y gallu i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

- 11.6 Fel sail i'w benderfyniad cynllunio, bydd angen i'r awdurdod cynllunio ffurfio barn ar dderbynioldeb y canlyniadau llifogydd a dim ond os bydd y datblygwr wedi dangos bod modd rheoli perygl a chanlyniadau llifogydd a'u bod yn bodloni'r meini prawf a nodir isod y dylai ganiatáu datblygiad.

Trothwyon amllder: dylunio datblygiadau i fod yn rhydd rhag llifogydd

- 11.7 Y safon ddylunio ofynnol ar gyfer datblygiadau newydd yw bod yn rhydd rhag llifogydd yn ystod y llifogydd afon 1% (h.y. llifogydd â thebygolrwydd o 1 mewn 100 o ddigwydd mewn unrhyw flwyddyn) a'r llifogydd 0.5% o'r môr (h.y. llifogydd â thebygolrwydd o 1 mewn 200 o ddigwydd mewn unrhyw flwyddyn), yn ogystal â lwfans ar gyfer newid hinsawdd drwy gydol oes datblygiad. Dylai canolfannau gorchymyn awdurdodau lleol a gwasanaethau brys a hybiau ar gyfer y gwasanaethau brys gael eu dylunio i fod yn rhydd rhag llifogydd yn ystod unrhyw ddigwyddiad 0.1% (h.y. llifogydd â thebygolrwydd o 1 mewn 1000 o ddigwydd mewn unrhyw flwyddyn), gan gynnwys lwfans ar gyfer newid hinsawdd. Lle y bo'n briodol, dylid cynnal asesiad yn seiliedig ar senario torri a rhwystro ar gyfer cyfnodau dychwelyd hyd at a chan gynnwys y digwyddiad llifogydd 1 mewn 1000, gan gynnwys lwfans ar gyfer newid hinsawdd. Caiff canllawiau manwl ar lwfansau newid hinsawdd at ddibenion cynllunio eu cyhoeddi ar wahân gan Lywodraeth Cymru.

- 11.8 Mae'r tabl canlynol yn crynhoi trothwyon amllder ar gyfer gwahanol fathau o ddatblygiadau a disgrifir amllder yn nhermau tebygolrwydd blynyddol o ddigwydd. Gellir defnyddio'r trothwyon yn fwy hyblyg ar gyfer ailddatblygu, newid defnydd, addasu ac ymestyn adeiladau, lle y bydd y gallu i ailddylunio datblygiad yn sylweddol yn gyfyngedig. Dan yr amgylchiadau hynny, canllaw yw'r trothwyon. Os na fydd posibilrwydd rhesymol o'u cyrraedd, dylai'r awdurdod cynllunio geisio barn yr awdurdod rheoli risg perthnasol ynghylch y mesurau cydnerthedd arfaethedig er mwyn ei helpu i wneud penderfyniad.

Ffigur 5 – Digwyddiadau llifogydd lle mae'n rhaid i ddatblygiad fod yn rhydd rhag llifogydd

Categoriâu Bregusrwydd		Math o ddigwyddiad llifogydd	
		Afonydd	Y môr
Datblygiad bregus iawn	Gwasanaethau brys (canolfannau gorchymyn a hybiau)	0.1%+newid hinsawdd (1 mewn 1,000)	0.1%+newid hinsawdd (1 mewn 1,000)
	Pob math arall	1%+newid hinsawdd (1 mewn 100)	0.5%+newid hinsawdd (1 mewn 200)
Datblygiad llai bregus		1%+newid hinsawdd	0.5%+NEWID HINSAWDD
Datblygiad sy'n gydnaws â dŵr a all gael ei feddiannu gan bobl		(1 mewn 100)	(1 mewn 200)

Amodau goddefadwy: rheoli canlyniadau mewn digwyddiad llifogydd eithafol

- 11.9 Mae'r trothwyon rhydd rhag llifogydd a amlinellir uchod yn gysylltiedig â digwyddiadau llifogydd difrifol iawn, ond nid y rhai mwyaf eithafol (ac eithrio trothwyon ar gyfer gwasanaethau brys). Yn ystod digwyddiadau llifogydd eithafol, cydnabyddir ei bod yn bosibl na fydd modd cadw pob datblygiad yn rhydd rhag llifogydd. Dan yr amgylchiadau hyn, mae'n hollbwysig sicrhau na fydd llifogydd yn peryglu bywydau, felly mae angen dangos y bydd yr amodau o fewn y datblygiad yn ystod digwyddiad eithafol yn oddefadwy.
- 11.10 Mae Ffigur 6 isod yn dangos yr amodau dyfnder a chyflymder llifogydd goddefadwy ar gyfer datblygiadau bregus iawn a llai bregus yn seiliedig ar eu hasesu yn erbyn y digwyddiad llifogydd eithafol 0.1%, gan gynnwys lwfans ar gyfer newid hinsawdd.
- 11.11 Nid yw mesurau lliniaru a gwrthsefyll llifogydd yn gyfiawnhad digonol i ganiatáu datblygiad os eir y tu hwnt i'r amodau goddefadwy yn ystod digwyddiad llifogydd eithafol. Gallai cyflymderau a/neu ddyfnderoedd llifddwr uchel beryglu bywyd, achosi difrod adeileddol i adeiladau ac effeithio ar iechyd a llesiant pobl.

Ffigur 6 – Amodau goddefadwy mewn digwyddiad llifogydd eithafol


Mathau o ddatblygiad newydd	Uchafswm dyfnder llifogydd (mm)	Uchafswm cyflymder llifddyfroedd (m/s)
Datblygiad bregus iawn	600	0.15
Datblygiad llai bregus Seilwaith sy'n gysylltiedig â datblygiad bregus iawn, e.e. meysydd parcio, mynediad, llwybrau a ffyrdd Datblygiad sy'n gydnaws â dŵr (yn gyfyngedig i'r elfennau adeiledig hynny o ddatblygiad a all gael eu meddiannu gan bobl)	600	0.3

- 11.12 Goddefiannau y gall datblygiadau newydd fod yn dderbyniol oddi tanynt yw'r ffigurau uchod. Fodd bynnag, rhaid ystyried pob safle yn unigol a ffurfio barn yng nghyd-destun yr amgylchiadau a allai fodoli ar y safle hwnnw. Nid yw datblygiadau gwasanaethau brys i'w gweld oherwydd rhaid iddynt fod yn rhydd rhag llifogydd mewn digwyddiad 0.1%, fel y nodir yn Ffigur 5. Ar gyfer datblygiadau gwasanaethau brys heblaw canolfannau

gorchymyn neu hybiau, dylid cymhwyso'r amodau ar gyfer datblygiadau bregus iawn.

- 11.13 Wrth benderfynu a ellir rheoli canlyniadau digwyddiad llifogydd eithafol mewn modd derbyniol, dylai awdurdodau cynllunio gyfeirio at bolisiau a chymau gweithredu perthnasol a nodir yn eu Cynllun Datblygu a chan Awdurdodau Rheoli Risg mewn cynlluniau wrth gefn lleol. Bydd hyn yn arbennig o berthnasol i ofynion mynediad a gadael mewn argyfwng.
- 11.14 Bydd llifogydd yn achosi perygl pan fydd y dŵr yn ddwfn neu'n symud yn gyflym. Bydd yn arbennig o beryglus pan fydd y naill a'r llall yn digwydd ar yr un pryd. Gall y matrices perygl llifogydd yn Ffigur 7 helpu awdurdodau cynllunio i asesu pa mor beryglus y gall digwyddiad llifogydd fod i wahanol bobl. Gellir defnyddio'r matrices i asesu'r lefelau perygl y tu mewn a'r tu allan i adeiladau sydd wedi'u lleoli mewn ardaloedd lle ceir perygl o lifogydd, drwy blotio'r dyfnderoedd a chyflymderau dŵr disgwylidig yn ystod y digwyddiad llifogydd.
- 11.15 Dylai'r awdurdod cynllunio ystyried holl ddefnyddwyr posibl a thebygol unrhyw ddatblygiad arfaethedig wrth asesu a ellir ystyried y bydd y datblygiad yn darparu amgylchedd diogel yn ystod digwyddiad llifogydd eithafol. Os na ellir darparu amgylchedd diogel, dylid gwrthod y cais cynllunio. Mae'r matrices yn dangos bod digwyddiadau llifogydd sy'n cynnwys dŵr dwfn sy'n symud yn gyflym yn beryglus i bawb, gan gynnwys y gwasanaethau brys. Ni fyddai'n briodol cymeradwyo'r un math o ddatblygiad a allai wynebu perygl ar y raddfa hon yn ystod digwyddiad llifogydd eithafol.

Ffigur 7 – Matrics perygl llifogydd




Cod lliwiau	Categoriâu perygl i bobl
	Perygl bach iawn
	Perygl i rai – gan gynnwys plant, pobl hŷn a phobl ag anableddau
	Perygl i'r rhan fwyaf – gan gynnwys y cyhoedd
	Perygl i bawb – gan gynnwys y gwasanaethau brys

12. Peryglon arfordirol – erydu a llifogydd

- 12.1 Mae gan ardaloedd arfordirol nodweddion unigryw sy'n gallu cynnig cyfleoedd a chyflwyno heriau wrth gynnig neu ystyried datblygiadau newydd. Cyfyngir ar gyfleoedd i ddatblygu gan beryglon megis llifogydd, erydu ac ansefydlogrwydd tir. Mae gan newid hinsawdd y potensial i ddwysáu'r peryglon hyn ledled ein holl ardaloedd arfordirol. Dylai awdurdodau cynllunio ymgynghori â'r Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol, fel aelodau o grwpiau arfordirol ac arbenigwyr ar Gynlluniau Rheoli Traethlin, er mwyn ceisio eu barn ar y ffordd y dylid ystyried y Cynlluniau Rheoli Traethlin wrth baratoi eu Cynlluniau Datblygu. O ystyried sensitifrwydd lleoliadau arfordirol i newidiadau amgylcheddol a achosir gan brosesau naturiol ac ymyrraeth gan bobl, mae'r system gynllunio yn cydnabod bod yr arfordir yn lle arbennig y mae pen draw iddo. Felly, rhaid ei reoli mewn modd rhagweithiol a chynaliadwy.
- 12.2 Dylai awdurdodau cynllunio fod yn ymwybodol y gallai datblygu ar ran dirol yr amgylchedd arfordirol arwain at effeithiau ar y tir ac ar y môr. Dylai awdurdodau cynllunio gydweithio ag awdurdodau morol perthnasol i sicrhau y bydd effeithiau cynllunio defnydd tir yn fuddiol i'r amgylchedd arfordirol cyffredinol ac na fyddant yn ei ddifrodi. Mae polisïau SOC 8 a SOC 9 yng Nghynllun Morol Cenedlaethol Cymru¹² yn benodol yn ystyriaethau pwysig mewn amgylcheddau arfordirol. Mae'r diagram yn Ffigur 8 yn dangos y ffordd y mae'r systemau cynllunio tirol a morol yn gorgyffwrdd mewn ardaloedd arfordirol.

Ffigur 8 – Y Parth Arfordirol¹³



¹² Mae Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru i'w weld yma: <https://www.llyw.cymru/cynllun-morol-cenedlaethol-cymru>

¹³ Caiff Terfyn Arferol y Llanw ei nodi ar fapiau Arolwg Ordnans ac mae'n bosibl y bydd yn ystyriaeth i rai partion. Mae'n bosibl y bydd gorgyffwrdd o ran y mathau o gydsyniadau y bydd eu hangen (caniatâd cynllunio defnydd tir a thrwydded forol) ac mae'n bosibl y bydd materion mewn afonydd llanw'n achosi problemau ar gyfer y tir a'r môr.

Cynlluniau Datblygu

- 12.3 Dylai Cynlluniau Datblygu ddangos pa rannau o'r arfordir y gellir eu datblygu, pa rai y dylid eu cynnal ar eu ffurf bresennol a pha rai y dylid gadael iddynt dyfu'n wyllt. Dylai'r dull o gynllunio'r arfordir fod yn seiliedig ar y Cynlluniau Datblygu Cenedlaethol (Cymru'r Dyfodol a Chynllun Morol Cenedlaethol Cymru) a thystiolaeth. Mae'r Map Perygl Erydu Arfordirol Cenedlaethol, Cynlluniau Rheoli Traethlin a Datganiadau Ardal yn rhoi tystiolaeth gynhwysfawr i lywio'r strategaeth gynllunio ar gyfer ardaloedd arfordirol. Dylai Asesiadau Strategol o Ganlyniadau Llifogydd gynnwys asesiad o rôl ac uniondeb amddiffynfeydd arfordirol a chyflwyno dealltwriaeth fanwl o'r peryglon yn sgil llifogydd ac erydu arfordirol yn ardal y cynllun.
- 12.4 Dylai'r fframweithiau polisi hirdymor ar gyfer rheoli amddiffynfeydd a pheryglon arfordirol a nodir mewn Cynlluniau Rheoli Traethlin gael eu hadlewyrchu mewn Cynlluniau Datblygu. Ni ddylai Cynlluniau Datblygu gynnwys cynigion sy'n groes i Gynlluniau Rheoli Traethlin. Mae'r Cynlluniau Rheoli Traethlin yn ddogfennau rhanbarthol ac, yn aml, bydd angen cydweithredu trawsffiniol er mwyn eu rhoi ar waith yn effeithiol a sicrhau'r canlyniadau gorau. Y ffordd orau o fynd i'r afael â materion o'r fath yw drwy gynllunio strategol ar y lefel ranbarthol neu gydweithio ffurfiol rhwng awdurdodau cynllunio. Dylai awdurdodau cynllunio gydnabod y posibilrwydd o effeithiau cronrus yn sgil cynigion datblygu ar yr arfordir. Gall cydweithio rhwng awdurdodau cynllunio ar lefel ranbarthol helpu i sicrhau penderfyniadau cyson a chefnogi'r broses o gyflawni strategaethau amddiffyn arfordirol ac fe'i hanogir yn gryf.
- 12.5 Gall polisïau cynllunio helpu awdurdodau cynllunio i ddangos rhannau o'r arfordir y bydd angen eu rheoli mewn ffyrdd penodol, gan gynnwys cynlluniau addasu 'r arfordir. Mae'n debygol y bydd angen polisïau er mwyn rheoli datblygiadau ar dir arfordirol ansefydlog, mewn ardaloedd arfordirol ar yr iseldir ac ar dir sy'n agos at glogwyni sy'n erydu neu forlinau eraill sy'n erydu, neu gyfyngu ar ddatblygiadau o'r fath.
- 12.6 Dylai'r Cynllun Datblygu ddiffinio'n glir ardaloedd arfordirol yr ystyrir eu bod yn addas ar gyfer datblygu a hefyd yr ardaloedd hynny sy'n destun cyfyngiadau sylweddol. Ni ddylid neilltuo safleoedd ar gyfer datblygu os bydd perygl llifogydd neu ansefydlogrwydd tir yn sgil erydu arfordirol drwy gydol oes y datblygiad. Pan fydd awdurdod cynllunio yn neilltuo tir arfordirol ar gyfer datblygu, dylai sicrhau bod ganddo ddigon o wybodaeth a'i fod wedi ystyried yr holl gyngor technegol perthnasol. Dylai unrhyw ddatblygiad wella'r ymdeimlad arbennig o le yn yr ardal arfordirol honno.
- 12.7 Pan fydd datblygwyr yn cynnig safleoedd o fewn ardaloedd arfordirol wrth baratoi Cynlluniau Datblygu, cyfrifoldeb y datblygwr fydd cyflwyno gwybodaeth ddigonol a phriodol i ddangos y gellir datblygu'r safleoedd arfaethedig yn ddiogel heb effeithiau andwyol sylweddol.
- 12.8 Gallai canllawiau cynllunio atodol roi rhagor o arweiniad manwl ar berygl arfordirol pan fydd gan awdurdod cynllunio strategaeth benodol ar gyfer rhan o'i ardal arfordirol, megis menter adfywio. Gellid defnyddio canllawiau

cynllunio atodol yn yr achosion hyn i ddangos sut y dylai prosiect adfywio gael ei ddylunio er mwyn sicrhau canlyniadau creu lleoedd a nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru a'r Cynllun Datblygu perthnasol.

Rheoli Datblygu

- 12.9 Wrth wneud penderfyniadau ynghylch cynigion datblygu o fewn ardaloedd arfordirol, dylai awdurdodau cynllunio ystyried yn llawn a oes peryglon i'r datblygiad yn deillio o erydu arfordirol neu lifogydd. Cyfrifoldeb yr ymgeisydd fydd cyflwyno tystiolaeth gyda'r cais yn dangos y bydd modd datblygu'r safle heb berygl llifogydd nac erydu arfordirol drwy gydol oes y datblygiad. Bydd angen i awdurdodau cynllunio fod yn fodlon bod y dystiolaeth yn gadarn cyn rhoi caniatâd cynllunio. Mae'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio yn ymgorffori ardaloedd y mae'r Map Perygl Erydu Arfordirol Cenedlaethol yn dangos eu bod yn ardaloedd lle ceir perygl o erydu. Ni ddylid caniatáu datblygiadau yn yr ardaloedd hyn.

Amddiffynfeydd arfordirol

- 12.10 Mae'n bosibl y bydd angen uwchraddio neu atgyfnerthu amddiffynfeydd arfordirol mewn ardaloedd arfordirol lle y caiff dull 'cynnal y llinell' ei gynghori yn y Cynllun Rheoli Traethlin a'i adlewyrchu yn y Cynllun Datblygu. Bydd adeiladu amddiffynfeydd môr yn aml yn arwain at fwy o bwysau o blaid datblygu, ond dylai awdurdodau cynllunio fod yn ymwybodol mai dim ond lleihau perygl llifogydd neu erydu a wna amddiffynfeydd, ac nid ei ddileu.
- 12.11 Pan gaiff amddiffynfeydd arfordirol eu huwchraddio neu eu hatgyfnerthu, gall hynny greu Parthau a Amddiffynnir TAN 15 newydd os byddant yn cynnig amddiffyniad o safon ddigonol. Yn yr ardaloedd hyn, dylai egwyddorion datblygu priodol a safleoedd penodol a neilltuir er mwyn helpu i adfywio ac adnewyddu cymunedau sydd eisoes yn bodoli gael eu nodi yn y Cynllun Datblygu. Ni ddylai datblygiadau bregus iawn sy'n ddibynnol ar yr amddiffynfeydd ddechrau cyn i'r gwaith adeiladu gael ei gwblhau na chyn i'r Parthau a Amddiffynnir newydd fod ar waith. Dylai awdurdodau cynllunio weithio gyda'r Awdurdodau Rheoli Risg perthnasol er mwyn sicrhau y bydd blaenoriaethau cynllunio defnydd tir a strategaethau ar gyfer amddiffynfeydd rhag llifogydd ac amddiffynfeydd arfordirol yn gydgyssylltiedig ac yn gyson.

Effaith tonnau

- 12.12 Gall tonnau eithafol sy'n torri dros dir yn ystod stormydd ddigwydd mewn llawer o ardaloedd arfordirol adeiledig. Mae'r peryglon a achosir gan y digwyddiadau hyn, gan gynnwys difrod i eiddo gan ddŵr y môr neu falurion, yn ychwanegol at y perygl o orlifo a welir ar y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio. Dylai awdurdodau lleol fod yn ymwybodol o'r perygl o donnau eithafol ac mae'n bosibl yr hoffent ystyried mesurau i atal difrod.

13. Dylunio cydnerth

- 13.1 Mae gwella cydnerthedd cymunedau sy'n wynebu perygl o lifogydd nawr ac mewn senarios newid hinsawdd posibl yn flaenoriaeth i awdurdodau cynllunio. Bydd ystyriaethau dylunio yn ffactor allweddol wrth benderfynu a fydd datblygiad yn dderbyniol mewn ardaloedd lle ceir perygl o lifogydd. Bydd yr atebion mwyaf effeithiol yn cyfuno mesurau cydnerthedd ar lefel safle ac ar lefel eiddo. Dylai Asesiadau Strategol a Manwl o Ganlyniadau Llifogydd roi cyngor ar ba fesurau sy'n cynnig yr amddiffyniad gorau a mwyaf priodol rhag llifogydd.
- 13.2 Mae gan reoliadau cynllunio ac adeiladu rôl ategol o ran rheoli llifogydd a bydd y defnydd o fesurau lliniaru llifogydd a mesurau sy'n gallu gwrthsefyll difrod yn ofynnol fel rhan o sicrhau y bydd canlyniadau llifogydd yn dderbyniol. Rhaid i unrhyw ddatblygiadau ym Mharthau 2 a 3 a Pharthau a Amddiffynnir TAN 15 allu gwrthsefyll llifogydd ar lefel safle ac ar lefel eiddo.
- 13.3 Ar lefel eiddo, dylid anelu at sicrhau bod cyn lleied â phosibl o ddŵr yn gallu mynd i mewn i eiddo gan ddefnyddio mesurau gwrthsefyll, a chyfyngu ar y difrod a achosir os bydd dŵr yn mynd i mewn i eiddo er mwyn gallu adfer yr adeilad yn gyflym. Gall nodweddion dylunio syml, megis codi lefelau lloriau, gan sicrhau y caiff mynediad cynhwysol ei gynnal, neu gadw cylchedau trydanol yn uwch na lefelau y mae llifogydd yn debygol o effeithio arnynt, alluogi adeiladau i wrthsefyll llifogydd ac ymdopi â nhw yn well. Hefyd, bydd defnyddio deunyddiau priodol yn gwneud datblygiad yn fwy cydnerth, er enghraifft drwy osgoi defnyddio carpedi mewn ardaloedd ar y llawr gwaelod. Anogir datblygwyr i ymgysylltu â'u hyswirwyr ar gam cynnar yn y broses ddylunio, oherwydd gall integreiddio nodweddion dylunio priodol ac effeithiol ddangos bod ymdrechion yn cael eu gwneud i leihau perygl llifogydd. Gall hyn helpu i sicrhau premiymau yswiriant is yn ystod y gwaith adeiladu ac ar gyfer meddianwyr datblygiadau newydd yn y pen draw.
- 13.4 Gall datblygiadau dwysedd uwch a defnydd cymysg gynnig mwy o botensial ar gyfer dylunio cydnerth. Er enghraifft, mae'n bosibl y gellir rhoi elfennau llai bregus o'r datblygiad, megis defnyddiau masnachol, mewn ardaloedd ar y llawr gwaelod, ar yr amod y bydd trefniadau mynediad ac ymadael boddhaol ar waith ar gyfer defnyddiau bregus iawn ar loriau uwch os bydd llifogydd.
- 13.5 Dylai mesurau gwrthsefyll a chadernid ar lefel safle anelu at leihau faint o lifddwr sy'n gallu mynd i mewn i'r safle yn ogystal â rheoli'n effeithiol unrhyw ddŵr sy'n cyrraedd y safle fel na fydd yn effeithio ar aelwydydd na meddianwyr/defnyddwyr eraill. Yr enw ar yr ail elfen hon yw 'dylunio ar gyfer gormodiant'. Gall olygu defnyddio seilwaith gwyrdd, priffyrdd a phalmentydd i sianelu a dargyfeirio dŵr, a defnyddio mannau agored neu

feysydd parcio i storio dŵr dros ben dros dro. Bydd integreiddio systemau draenio cynaliadwy (SDCau) mewn datblygiadau yn gyfle i sicrhau nifer o ganlyniadau cadarnhaol, drwy gyfuno asedau draenio ac amddiffyn rhag llifogydd hollbwysig â seilwaith gwyrdd a thir y cyhoedd o safon uchel.

- 13.6 Gellir cael cyngor ar ymgorffori mesurau gwrthsefyll a chydnerthedd mewn datblygiad drwy ddylunio gan Gymdeithas Ymchwil a Gwybodaeth y Diwydiant Adeiladu (CIRIA), gan gynnwys cod ymarfer a chanllawiau ar allu eiddo i wrthsefyll llifogydd.¹⁴

Seilwaith amddiffyn rhag llifogydd newydd neu well

- 13.7 Mae Llywodraeth Cymru a'r Awdurdodau Rheoli Risg yn buddsoddi llawer o arian cyhoeddus mewn adeiladu ac uwchraddio seilwaith amddiffyn rhag llifogydd bob blwyddyn. Nod y buddsoddiad hwn yw rhoi gwell amddiffyniad i gartrefi, cymunedau a busnesau sydd eisoes yn bodoli rhag llifogydd. Dim ond er mwyn amddiffyn lleoedd a chymunedau sydd eisoes yn bodoli ac sydd eisoes yn wynebu perygl llifogydd y caiff seilwaith amddiffyn rhag llifogydd newydd ei adeiladu.
- 13.8 Mae defnyddio cynlluniau rheoli llifogydd yn naturiol yn flaenoriaeth allweddol er mwyn amddiffyn rhag llifogydd.¹⁵ Fodd bynnag, bydd amgylchiadau pan ellir cyfiawnhau cynigion gan Awdurdodau Rheoli Risg i adeiladu neu wella amddiffynfeydd rhag llifogydd wedi'u peiriannu er mwyn amddiffyn cymunedau sydd eisoes yn bodoli rhag llifogydd ac effeithiau llifogydd yn well.
- 13.9 Fel arfer, bydd seilwaith amddiffyn rhag llifogydd yn dargyfeirio dŵr i ffordd oddi wrth ddatblygiad, a all arwain at gynyddu perygl llifogydd yn rhywle arall. Bydd yn rhaid ystyried y manteision a'r effeithiau andwyol, ar y safle ac oddi arno (a thu hwnt i ffiniau awdurdod lleol weithiau), yn llawn ac yn ofalus pan gaiff seilwaith amddiffyn rhag llifogydd newydd neu well ei gynnig. Bydd yn rhaid i awdurdodau cynllunio fod yn fodlon y bydd y manteision i'r ardal a amddiffynnir yn amlwg yn drech nag unrhyw effeithiau negyddol yn unrhyw le arall.
- 13.10 Mae darparu gorlifdir cydbwysu yn ffordd effeithiol o osgoi effeithiau andwyol yn rhywle arall, ond nid yw'n opsiwn dichonadwy bob amser. Mae'n bosibl y bydd cynyddu perygl neu ddifrifoldeb llifogydd yn rhywle arall yn dderbyniol os bydd yr effaith ar dir nad yw wedi'i ddatblygu na'i feddiannu. Os bydd y tir yr effeithir arno eisoes yn orlifdir, bydd mantais atgyfnerthu'r amddiffyniad rhag llifogydd i eiddo preswyl fel arfer yn drech nag effaith negyddol llifogydd mwy dwys ar y gorlifdir. Pe bai seilwaith

¹⁴ Code of practice for property flood resilience C790 (ciria.org)

¹⁵ Mae rhagor o wybodaeth am y cynlluniau hyn i'w chael yn y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru: <https://www.llyw.cymru/strategaeth-genedlaethol-ar-gyfer-rheoli-perygl-llifogydd-ac-erydu-arfordirol-yng-nghymru>

amddiffyn rhag llifogydd yn arwain at gynnydd yn y perygl i eiddo sydd eisoes mewn ardaloedd lle ceir perygl o lifogydd, bydd yr Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd yn llywio penderfyniad yr awdurdod cynllunio. Dylai awdurdodau cynllunio ystyried yn ofalus a yw'r cynnydd yn y perygl mewn gwahanol senarios llifogydd yn rhesymol ac yn oddefadwy, gan ddefnyddio'r canllawiau a nodir yn y Nodyn Cyngor Technegol hwn. Os penderfynir y bydd effaith andwyol ar dir trydydd parti yn dderbyniol, rhaid rhoi gwybod i'r holl dirfeddianwyr yr effeithir arnynt. Bydd hyn yn eu galluogi i roi eu barn ac, ar wahân i'r broses gynllunio, yn eu galluogi i gyd-drafod tâl digolledu o bosibl.

- 13.11 Ni ddylai adeiladu na gwella seilwaith amddiffyn rhag llifogydd beri i eiddo mewn lleoliad arall nad ydynt yn wynebu fawr ddim perygl ar hyn o bryd, os o gwbl, (Parth 1) gael eu rhoi mewn perygl o lifogydd (Parth 2 neu Barth 3).
- 13.12 Dylai buddsoddiad mewn amddiffynfeydd newydd neu well geisio cyflawni manteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ehangach, megis storio carbon, cyfleoedd hamdden, gwelliannau i fioamrywiaeth a llesiant cymdeithasol. Bydd y rhain yn galluogi Awdurdodau Rheoli Risg i ddangos eu bod yn cyflawni eu nodau llesiant a'u dyletswyddau o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Gall buddsoddiadau mewn seilwaith amddiffyn rhag llifogydd arwain at fwy o werth cyffredinol pan gânt eu cyfuno â buddsoddiadau eraill, er enghraifft mewn seilwaith teithio llesol, gwelliannau i dir y cyhoedd neu gynlluniau adfywio.

14. Rolau a chyfrifoldebau

- 14.1 Mae gan nifer o gyrff a sefydliadau rolau pwysig i'w cyflawni er mwyn sicrhau y caiff amcanion PCC a'r Nodyn Cyngor Technegol hwn eu cyflawni. Tynnir sylw at rolau allweddol mewn perthynas â gwahanol agweddau ar y broses gynllunio drwy'r ddogfen hon i gyd.
- 14.2 O fewn y system sy'n dilyn cynllun sydd ar waith yng Nghymru, mae pennu strategaethau a pholisïau a neilltuo safleoedd yn briodol ac yn effeithiol mewn Cynlluniau Datblygu yn rhan ganolog o'r broses gynllunio. Dylai'r awdurdodau cynllunio sy'n gyfrifol am baratoi'r cynlluniau hyn fanteisio ar arbenigedd a gwybodaeth adrannau perthnasol o fewn awdurdodau lleol. Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd rôl bwysig i'w chyflawni, fel y prif gynghorydd technegol i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol ar faterion sy'n ymwneud â'r amgylchedd ac adnoddau naturiol. Dylai awdurdodau lleol hefyd ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys y gwasanaethau brys.
- 14.3 Caiff y rhan fwyaf o benderfyniadau ynghylch ceisiadau cynllunio eu gwneud yn lleol, a Gweinidogion Cymru sy'n gyfrifol am apelïadau, ceisiadau a elwir i mewn, a Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol. Y penderfynwyr sy'n gyfrifol am benderfynu a ellir cyfiawnhau cynnig ac a yw'r canlyniadau llifogydd yn dderbyniol. Pan fydd llifogydd neu erydu arfordirol yn ystyriaethau, bydd angen ymgynghori ag Awdurdodau Rheoli Risg er mwyn iddynt roi cyngor y dylai'r penderfynwr ei ystyried.
- 14.4 Rhaid i ymgeiswyr a darpar ddatblygwyr gyflwyno gwybodaeth ffeithiol gywir er mwyn galluogi'r penderfynwr i asesu cynigion yn erbyn gofynion PCC a'r Nodyn Cyngor Technegol hwn. Bydd angen i'r wybodaeth hon gael ei chyflwyno gyda chais cynllunio er mwyn sicrhau y caiff penderfyniadau eu gwneud o fewn amserlenni statudol. Os na chaiff yr holl wybodaeth angenrheidiol ei rhoi i'r penderfynwyr, gellid cyfiawnhau gwrthod y cais am nad oes gwybodaeth ddigonol wedi cael ei chyflwyno.
- 14.5 Bydd Llywodraeth Cymru yn monitro effeithiolrwydd PCC a TAN 15 drwy Gyfarwyddyd Hysbysu.
- 14.6 Bydd y **Cyfarwyddyd Hysbysu** yn sicrhau y caiff Llywodraeth Cymru wybod am geisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau newydd bregus iawn ym Mharth 3 – Afonydd a'r Môr y mae'r awdurdod cynllunio o blaid eu cymeradwyo. Bydd Gweinidogion Cymru yn gallu dewis galw'r cais i mewn er mwyn penderfynu arno eu hunain.

15. Ystyriaethau pellach ar gyfer ceisiadau cynllunio

Trafodaethau cyn ymgeisio

- 15.1 Dylai ymgeiswyr ddefnyddio gwasanaethau cyn ymgeisio a ddarperir gan awdurdodau cynllunio wrth baratoi ceisiadau ar gyfer datblygu, er mwyn sicrhau y bydd y cais cynllunio'n cynnwys yr holl wybodaeth a fydd yn angenrheidiol er mwyn i benderfynwyr ac ymgynghoreion ystyried y cais. Dylai unrhyw ymgysylltu cyn ymgeisio bennu cwmpas yr Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd, gan sicrhau ei fod yn gymesur â natur, graddfa a dyluniad y datblygiad arfaethedig, a chanfod a oes unrhyw waith modelu llifogydd perthnasol eisoes yn bodoli. Anogir ymgysylltu amlochrog rhwng yr ymgeisydd, yr awdurdod cynllunio, y Corff Cymeradwyo SDCau a Cyfoeth Naturiol Cymru fel arfer orau.

Ymgynghori

- 15.2 Pan fydd awdurdod cynllunio'n cael cais cynllunio ar gyfer datblygu ym Mharth 2, Parth 3 neu Barthau a Amddiffynnir TAN 15, dylai gynnal ymgynghoriad mewnol priodol ar ei gyfrifoldebau ei hun mewn perthynas ag amddiffyn rhag llifogydd fel yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol, yn ogystal ag ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru.¹⁶
- 15.3 Dylai Cyfoeth Naturiol Cymru roi cyngor manwl i'r awdurdod cynllunio ar ganfyddiadau a chasgliadau'r Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd mewn perthynas â llifogydd o afonydd a'r môr, gan gynnwys yr effaith ar lifogydd mewn mannau eraill ac effaith gwaith lliniaru llifogydd ar yr amgylchedd ac ar eiddo arall. Dylai'r Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol roi cyngor i'r awdurdod cynllunio ar ganfyddiadau a chasgliadau'r Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd mewn perthynas â pheryglon dŵr wyneb, llifogydd o gysiau dŵr cyffredin ac erydu arfordirol. Os bydd yr awdurdod cynllunio o blaid mynd yn groes i gyngor Cyfoeth Naturiol Cymru neu'r Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol, dylai roi gwybod iddo cyn rhoi'r caniatâd, gan roi digon o amser i sylwadau pellach gael eu gwneud. Ni ddylid rhoi caniatâd cynllunio mewn ardal lle ceir perygl o lifogydd heb roi amser rhesymol i Cyfoeth Naturiol Cymru neu'r Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol ymateb i'r cynnig yn gyntaf.

Gwybodaeth ddigonol

- 15.4 Dylid cyflwyno gwybodaeth ddigonol ar ffurf Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd gyda phob cais perthnasol. Pan fydd yr asesiad yn cynnwys gwybodaeth annigonol er mwyn galluogi Cyfoeth Naturiol Cymru a/neu'r

¹⁶ Nid yw'r canlyniadau llifogydd sy'n gysylltiedig â datblygiad bregus iawn ym Mharth 3 (Afonydd a'r Môr) yn dderbyniol ac nid yw'n ofynnol i Cyfoeth Naturiol Cymru roi cyngor ar y math hwn o gynnig.

Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol i roi cyngor ar ganlyniadau llifogydd, dylai'r awdurdod cynllunio ddefnyddio ei bwerau i ofyn am ragor o wybodaeth. Os na ddaw'r wybodaeth y gofynnwyd amdani i law o fewn cyfnod rhesymol, neu os na fydd yn ddigon manwl, byddai hyn yn gyfystyr â rheswm dros wrthod y cais. Dylai'r asesiadau hyn gael eu cynnal gan berson cymwys sydd â chymwysterau addas a bod yn sail ar gyfer y broses ddylunio fanwl a'r broses o ddethol mesurau lliniaru, lle bo hynny'n briodol.

Canllawiau pellach ar gyfer amgylchiadau penodol

Safleoedd mewn dau barth llifogydd neu fwy

- 15.5 Os bydd safle wedi'i leoli mewn dau barth llifogydd neu fwy, bydd yn rhaid i'r awdurdod cynllunio gynnal asesiad o'r cynnig, gan ystyried pob un o'i ddefnyddiau tir arfaethedig, yn erbyn pob un o'r parthau llifogydd y mae'n berthnasol iddynt, yn unol â gofynion meini prawf y Nodyn Cyngor Technegol hwn. Bydd angen cynnal asesiad o ganlyniadau llifogydd ar gyfer y cynnig hefyd. Dylid ystyried cyngor gan Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol wrth benderfynu a yw'r canlyniadau llifogydd yn dderbyniol, o ran y risgiau i bobl ac eiddo. Os na fydd y cynnig, boed yn rhannol neu yn ei gyfanrwydd, yn cydymffurfio â gofynion y Nodyn Cyngor Technegol, dylid gwrthod y cais cynllunio.

Ceisiadau ar gyfer estyniadau a datblygiadau gan ddeiliaid tai

- 15.6 Ni fydd yn ofynnol cyfiawnhau lleoliad datblygiad gan ddeiliad tŷ ond, os bydd mân waith o'r fath yn debygol o gael effaith andwyol, bydd angen arfarnu canlyniadau'r datblygiad yn llawn. Dan amgylchiadau o'r fath, dylai'r awdurdod cynllunio roi gwybod i'r datblygwr neu'r ymgeisydd y bydd angen cyflwyno Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd.
- 15.7 Os bydd Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd wedi dangos y byddai estyniadau neu addasiadau lluosog mewn ardal yn debygol o gael effaith gronnol andwyol ar berygl llifogydd, dylai awdurdodau cynllunio ystyried gwneud Cyfarwyddyd Erthygl 4 o dan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995, fel y'i diwygiwyd. Wedyn, byddai angen cyflwyno cais am ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygiad gan ddeiliad tŷ, gan roi cyfle i awdurdodau cynllunio ystyried y cynnig ac unrhyw effaith ar berygl llifogydd yn llawn.

Mannau agored cyhoeddus, hamdden ac amaethyddiaeth

- 15.8 Mae'n debygol y bydd defnyddio tir sy'n wynebu perygl o lifogydd ar gyfer amaethyddiaeth a hamdden ac fel man agored cyhoeddus yn dderbyniol yn y rhan fwyaf o achosion. Fodd bynnag, mae'n bosibl na fydd adeiladau

neu adeileddau atodol sy'n ofynnol ar gyfer y defnyddiau hyn, y bydd angen eu cymeradwyo ymlaen llaw dan rai amgylchiadau, yn dderbyniol ac y bydd angen eu cyfiawnhau yn unol ag egwyddorion y Nodyn Cyngor Technegol hwn.

Safleoedd carafannau a gwersylla

- 15.9 Mae safleoedd carafannau a gwersylla a safleoedd llety dros dro eraill yn arwain at broblemau arbennig mewn perthynas â llifogydd. Maent yn aml wedi cael eu lleoli ar safleoedd arfordirol neu ar lannau afonydd sy'n agored i lifogydd. Mae ansefydlogrwydd carafannau yn peri risg arbennig i'r bobl sy'n eu defnyddio, ac eraill, ac mae'n gallu bod yn anodd gweithredu system effeithiol ar gyfer rhybuddio rhag llifogydd. Ni ddylid caniatáu datblygiadau o'r fath (gan gynnwys unrhyw newid defnydd, estyniadau i ddefnydd tymhorol ac estyniadau i safleoedd sydd eisoes yn bodoli) ym Mharth 3 (Afonydd a'r Môr). Dim ond ym Mharth 2 (Afonydd a'r Môr) y dylid eu hystyried, a hynny os bydd y datblygiad yn bodloni gofynion y Nodyn Cyngor Technegol.
- 15.10 Pan fydd awdurdodau cynllunio o blaid rhoi caniatâd ar gyfer safleoedd carafannau/gwersylla neu fathau eraill o lety gwyliau dros dro ym Mharth 2 (Afonydd a'r Môr) neu ym Mharthau a Amddiffynnir TAN 15, dylai amod cynllunio sicrhau y caiff hysbysiadau rhybuddio addas eu darparu a'u cynnal a'u cadw'n barhaus er mwyn hysbysu pobl sy'n mynd ar y safle. Dylai'r amod hefyd sicrhau y caiff cynlluniau effeithiol eu paratoi ar gyfer rhybuddio a gadael mewn argyfwng. Dylai'r amod ei gwneud yn ofynnol cyflwyno a chymeradwyo lleoliad yr hysbysiadau ar y safle a nodi y dylent gael eu diweddarau'n rheolaidd â'r gweithdrefnau diweddaraf ar gyfer rhybuddio a gadael mewn argyfwng. Rhaid i'r amod gael ei ddrafftio yn unol â'r chwe phrawf a nodir yng Nghylchlythyr Llywodraeth Cymru 016/2014: Defnyddio Amodau Cynllunio i Reoli Datblygu.¹⁷ Dylid cymryd camau gorfodi os bydd arwyddion o'r fath yn mynd yn hen er mwyn sicrhau bod hysbysiadau rhybuddio effeithiol yn bresennol bob amser. Dylai sefydliadau carafanio a gwersylla ymgysylltu â'r awdurdod cynllunio a Cyfoeth Naturiol Cymru ynglŷn ag unrhyw gyfyngiadau llifogydd a allai fod yn berthnasol a'r trefniadau ar gyfer rhoi gwybod i ddefnyddwyr am y systemau rhybuddio a'r gweithdrefnau gadael mewn argyfwng.

Camlesi a chyrff dŵr artiffisial eraill

- 15.11 Mae camlesi, fel dyfrffyrdd mewndirol, yn gweithredu'n wahanol i afonydd a chysiau dŵr eraill, fel y diffinnir o dan Ddeddf Draenio Tir 1991. Er y bydd rhai mewn ardaloedd lle ceir perygl o lifogydd o afonydd neu o'r môr, nifer cyfyngedig o ffosydd porthi fydd gan gamlesi fel arfer, a chaiff y rhain yn

¹⁷ Mae Cylchlythyr 016/2014 i'w weld yma: <https://www.llyw.cymru/defnyddio-amodau-cynllunio-i-reoli-datblygu-cllc-0162014>

aml eu rheoli fel bod modd eu dargyfeirio i ffwrdd o'r gamlas yn ystod llifogydd. Caiff llifddorau eu rheoli i arllwys dŵr dros ben o'r gamlas yn ystod cyfnodau o fewnlif uchel er mwyn sicrhau na fydd lefelau dŵr yn codi'n uwch na'r bwrdd rhydd ac yn gorlifo i dir cyfagos. Hefyd, mae gan gamlesi rywfaint o allu i storio dŵr cyn iddo gael ei arllwys, gan wanhau'r llifogydd trymaf a lleihau'r posibilrwydd o lifogydd. Mewn rhai achosion, bydd camlesi'n croesi ffiniau dalgylchoedd afonydd, a gallai dŵr gael ei dderbyn mewn un dalgylch a'i arllwys mewn un arall. Dylid ymgynghori â Glandŵr Cymru a pherchnogion camlesi eraill ynghylch cynigion yn agos at gamlesi, ffosydd porthi a nentydd y bydd dŵr yn llifo iddynt o adeileddau gorlifo camlesi, megis coredau a llifddorau.

- 15.12 Ceir goblygiadau deublyg i ddatblygu yn agos at gamlesi a chyrff dŵr artifisial eraill. Yn gyntaf, gan nad yw'r cysyniad o orlifdir yn berthnasol, mae'n bosibl na fydd datblygiadau neu ailddatblygiadau ar dir a ddatblygwyd yn flaenorol yn wynebu'r un cyfyngiadau perygl llifogydd â datblygiadau ar lan afon. Felly, gall camlesi gadw eu potensial i weithredu fel catalyddion ar gyfer adfywio trefol a gwledig. Yn ail, ni ddylai awdurdodau sy'n ystyried datblygiadau yn agos at gamlesi anghofio eu gallu eu hunain i achosi llifogydd lleol, er enghraifft pan na fydd sianeli gorlifo yn gweithio neu pan fydd argloddiau camlesi'n methu neu'n cael eu torri. Mae argaeau a chronfeydd dŵr yn achosi posibilrwydd tebyg o lifogydd ar raddfa fawr. Dylid bod yn rhagofalus mewn lleoliadau bregus a dylid defnyddio methodoleg ragofalus mewn ymgynghoriad â gweithredwr y gamlas a pherchennog yr argae/cronfa ddŵr.

Cyfraniadau datblygwyr

- 15.13 Dan rai amgylchiadau, mae'n bosibl y caiff datblygiad ei ganiatáu yn amodol ar fesurau lliniaru neu welliannau priodol i seilwaith amddiffyn rhag llifogydd sydd eisoes yn bodoli er mwyn rheoli perygl llifogydd. Fel arfer, bydd disgwyl i ddatblygwyr dalu costau mesurau lliniaru a gwaith adeiladu a chynnal a chadw hirdymor angenrheidiol. Lle bo angen, dylai awdurdodau cynllunio ei gwneud yn ofynnol i ddatblygwyr gyfrannu'n ariannol drwy'r Ardoll Seilwaith Cymunedol neu ymrwymo i gytundeb o dan Adran 106 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 er mwyn sicrhau y gellir gwneud gwelliannau i seilwaith. Dylai awdurdodau cynllunio sicrhau bod y datblygwr yn gwneud unrhyw waith angenrheidiol ac y caiff ymrwymadau cynnal a chadw yn y dyfodol eu cyflawni. Fel arfer, bydd yn briodol rhoi'r seilwaith sy'n deillio o hyn, wedi iddo gael ei adeiladu i foddhad yr awdurdod gweithredu, ym meddiant yr awdurdod gweithredu, gyda swm cymunedig penodedig i dalu costau cynnal a chadw am 30 mlynedd. Ar ôl hynny, byddai'n rhesymol ystyried bod y seilwaith yn ased cyhoeddus a ddylai gael ei gynnal a'i gadw o bwrs y wlad.

- 15.14 Pan fyddai gwaith o'r fath yn cynnig budd ehangach, gall y cyllid a ddarperir gan y datblygwr fod yn gymesur â'r budd a gaiff. Mewn achosion o'r fath, mae'n bosibl mai un ffordd resymol o neilltuo safle fyddai i'r datblygwr dalu am ddarparu'r gwelliannau i seilwaith, a bod yr awdurdod gweithredu wedyn yn eu meddiannu a'u cynnal a'u cadw. Gellir defnyddio amod "Grampian" os gellir gwarantu y byddai'r cynllun cyfan yn cael ei gyllido a'i adeiladu cyn i'r datblygiad fynd rhagddo.
- 15.15 Nodir cyngor ar ddefnyddio amodau mewn caniatadau cynllunio yng Nghylchlythyr Llywodraeth Cymru 016/2014, a chyngor ar ddefnyddio amodau mewn rhwymedigaethau cynllunio yng Nghylchlythyr y Swyddfa Gymreig 13/97.
- 15.16 Ar ôl cael cyngor gan Awdurdodau Rheoli Risg, bydd angen i'r awdurdod cynllunio fod yn fodlon y gall y gwelliannau i seilwaith gael eu gwneud, a bydd yn penderfynu pa gyfraniad y bydd angen i'r datblygwr ei wneud. Oni fydd awdurdod cynllunio yn fodlon y bydd y datblygwr yn ddarostyngedig i rwymedigaeth effeithiol i wneud y cyfraniad angenrheidiol, dylid gwrthod y cais.

Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol

- 15.17 Bydd angen caniatâd cynllunio ar gyfer gwaith newydd i ddiogelu'r arfordir ac er mwyn gwella gwaith sydd eisoes yn bodoli. Daw gwaith i ddiogelu'r arfordir (heblaw cynnal a chadw neu ailadeiladu gwaith sydd eisoes yn bodoli) o dan atodlen 2 i Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2017 ac mae'n ddigon posibl y bydd angen Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol cyn y gellir rhoi caniatâd cynllunio. Os bydd gwaith i ddiogelu'r arfordir yn debygol o gael effaith sylweddol ar safle sydd o fewn cwrmpas Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (a'i fod yn "gynllun neu'n brosiect perthnasol" at y dibenion hynny), bydd "asesiad priodol" yn ofynnol.
- 15.18 Os bydd y gwaith tua'r môr o lefel cymedr penllanw'r gorllanw, bydd angen trwydded gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn unol â darpariaethau Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009. Wrth ystyried a ddylid rhoi trwydded, rhoddir ystyriaeth i'r angen i ddiogelu'r amgylchedd morol, ymhlith pethau eraill. Mae'n bosibl y bydd angen cynnal Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol yn unol â Rheoliadau Gwaith Morol (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2007 cyn y gellir rhoi trwydded. Felly, dylai'r broses o gydgyssylltu Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ar gyfer caniatâd cynllunio a thrwyddedu morol gael ei ystyried yn gynnar yn y gwaith cynllunio a dylunio ar gyfer prosiectau amddiffyn arfordirol.
- 15.19 Ar gyfer gwaith amddiffyn rhag llifogydd/liniaru llifogydd, bydd angen i awdurdodau cynllunio benderfynu a fydd angen Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol yn unol â Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu

Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2017. Lle bynnag y bo modd, dylai gwarchod adeileddau amddiffyn rhag llifogydd naturiol, er enghraifft twyni tywod, fod yn opsiwn i'w ystyried a'i integreiddio bob amser, ynghyd â sicrhau manteision eraill yng nghyd-destun Rheolaeth Integredig ar Barthau Arfordirol.

15.20 Hefyd, mae'n bosibl y bydd Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol yn ofynnol ar gyfer gwelliannau draenio tir a ganiateir o dan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995, fel y'i diwygiwyd, yn unol â Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol (Gwaith Gwella Draenio Tir) 1999. Dylai datblygwyr gysylltu â'r awdurdod cynllunio cyn gynted â phosibl er mwyn penderfynu a fydd angen cynnal Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ac, os felly, beth y dylai ei gynnwys.

15.21 Mae'n bosibl y bydd perygl llifogydd yn elfen i'w hystyried fel rhan o ddatganiad amgylcheddol ar gyfer datblygiad lle mae Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol yn ofynnol. Bydd hyn yn debygol o ddigwydd pan fydd effaith datblygiad ar berygl llifogydd yn effeithio ar safleoedd cadwraeth dynodedig neu'n amharu ar opsiynau rheoli afonydd a rheoli thraethlin neu gynlluniau gweithredu ar fioamrywiaeth. Nid yw'r amgylchiadau hyn yn hollgynhwysfawr a dylai datblygwyr gysylltu â'r awdurdod cynllunio er mwyn penderfynu a fydd angen Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ar gyfer datblygiad ac a ddylai cwmpas datganiad amgylcheddol gynnwys perygl llifogydd. Mae rhagor o gyngor ar Asesiadau o'r Effaith Amgylcheddol i'w weld yn adran 6.2 o'r Llawlyfr Rheoli Datblygu a Chylchlythyr y Swyddfa Gymreig 11/99.